# Agenda - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 2 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 27 Mehefin 2018

Amser: 09.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Bethan Davies**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6372

SeneddCyllid@cynulliad.cymru

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.00)

## 2 Papur(au) i'w nodi

(09.00) (Tudalennau 1 - 3)

## 3 Cyllideb Atodol Gyntaf Llywodraeth Cymru 2018-19: sesiwn dystiolaeth

(09.00-09.50) (Tudalennau 4 - 44)

Mark Drakeford AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid

Matthew Denham Jones, Dirprwy Gyfarwyddwr, Rheoli Ariannol

Sharon Bounds, Pennaeth Rheoli Cyllidebau

Papur 1 - Cynnig y Gyllideb Atodol Gyntaf 2018-19

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitemau 5 ac 8 ac ar gyfer dechrau'r cyfarfod ar 5 Gorffennaf 2018

(09.50)

## 5 Cyllideb Atodol Gyntaf Llywodraeth Cymru 2018-19: trafod y dystiolaeth

(09.50-10.00)

## 6 Ymchwiliad i'r paratoadau ar gyfer yr hyn a fydd yn disodli ffrydiau cyllido'r UE yng Nghymru: sesiwn dystiolaeth 7 (Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig)

(10.00-11.00) (Tudalennau 45 - 83)

Lesley Griffiths AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig

Tim Render, Cyfarwyddwr, Amgylchedd a Materion Gwledig

Papur 2 – Tystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig

## 7 Ymchwiliad i'r paratoadau ar gyfer yr hyn a fydd yn disodli ffrydiau cyllido'r UE yng Nghymru: sesiwn dystiolaeth 8 (Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid)

(11.00-12.30) (Tudalennau 84 - 89)

Mark Drakeford AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid

Peter Ryland, Prif Swyddog Gweithredu, Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru

Papur 3 – Tystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid

## 8 Ymchwiliad i'r paratoadau ar gyfer yr hyn a fydd yn disodli ffrydiau cyllido'r UE yng Nghymru: trafod y dystiolaeth

(12.30-12.40)

# Held onCofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Iau, 21 Mehefin 2018

Amser: 09.32 - 12.13

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/4840

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Simon Thomas AC (Cadeirydd)<br>Mike Hedges AC<br>Jane Hutt AC<br>Nick Ramsay AC |
| Tystion: | Victoria Winckler, Sefydliad Bevan<br>Alan Bermingham, y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth<br>Yr Athro Steve Fothergill, Prifysgol Sheffield Hallam<br>Yr Athro David Bell, Prifysgol Stirling<br>Yr Athro Terry Marsden, Prifysgol Caerdydd |
| Staff y Pwyllgor: | Bethan Davies (Clerc)<br>Leanne Hatcher (Ail Glerc)<br>Georgina Owen (Dirprwy Glerc)<br>Gareth David Thomas (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Steffan Lewis AC, David Rees AC a Neil Hamilton AC.

## 2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Nodwyd y papur.

## 3 Ymchwiliad i'r paratoadau ar gyfer yr hyn a fydd yn disodli ffrydiau cyllido'r UE yng Nghymru: Sesiwn dystiolaeth 4 (Sefydliad Bevan)

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Victoria Winckler, Cyfarwyddwr Sefydliad Bevan, fel rhan o'i ymchwiliad i baratoadau ar gyfer yr hyn a fydd yn disodli ffrydiau cyllido'r UE yng Nghymru.

## 4 Ymchwiliad i'r paratoadau ar gyfer yr hyn a fydd yn disodli ffrydiau cyllido'r UE yng Nghymru: Sesiwn dystiolaeth 5 (Y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth)

4.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Alan Bermingham o'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth fel rhan o'i ymchwiliad i baratoadau ar gyfer yr hyn a fydd yn disodli ffrydiau cyllido'r UE yng Nghymru.

## 5 Ymchwiliad i'r paratoadau ar gyfer yr hyn a fydd yn disodli ffrydiau cyllido'r UE yng Nghymru: Sesiwn dystiolaeth 6

5.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan yr Athro Steve Fothergill o Brifysgol Sheffield Hallam, yr Athro David Bell o Brifysgol Stirling a'r Athro Terry Marsden o Brifysgol Caerdydd fel rhan o'i ymchwiliad i baratoadau ar gyfer yr hyn a fydd yn disodli ffrydiau cyllido'r UE yng Nghymru.

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

6.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 7 Ymchwiliad i'r paratoadau ar gyfer yr hyn a fydd yn disodli ffrydiau cyllido'r UE yng Nghymru: Trafod y dystiolaeth

7.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

## 8 Dull ar gyfer Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2019-20

8.1 Trafododd y Pwyllgor ei ddull ar gyfer craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2019-20, gan gytuno:

- i gyhoeddi crynodeb o'r trafodaethau â rhanddeiliaid yn y digwyddiad a gynhaliwyd yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn Abertawe ar 7 Mehefin 2018;
- i ysgrifennu at bwyllgorau polisi eraill, gan nodi nifer o themâu i graffu arnynt; ac
- i ddarparu cyngor arbenigol ynghylch cyfradd treth incwm Cymru.

# Cynnig y Gyllideb Atodol 2018-19

***Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid***

***Mehefin 2018***

**<u>Cynnig y Gyllideb Atodol</u>**

**1. Gofynnir i'r Cynulliad gytuno ar y canlynol:**

- Gwneir y penderfyniad hwn ar gyfer y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2019 gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad") yn unol ag Adran 126 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ("y Ddeddf").

2. Dylai'r Cynnig Atodol hwn ar gyfer y Gyllideb gael ei ddarllen ochr yn ochr â dogfennau'r gyllideb a gyhoeddwyd ar 19 Mehefin 2018.

<u>Llywodraeth Cymru</u>

3. Awdurdodir Llywodraeth Cymru -

(a) i ddefnyddio adnoddau (heb gynnwys adnoddau cronnus) yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2019 ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yng Ngholofn 1 o Atodlen 1, hyd at uchafswm y symiau cyfatebol a nodir yng Ngholofn 2 yr Atodlen honno;

(b) yn ogystal, i gadw incwm, yn y categorïau adnoddau cronnus a nodir yng Ngholofn 1 o bob Rhan o Atodlen 2, yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2019, ar gyfer ei ddefnyddio ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yng Ngholofn 2 o bob Rhan o'r Atodlen honno, hyd at y terfyn a nodir ar gyfer pob Rhan o'r Atodlen honno; ac

(c) i gymryd arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru i'w ddefnyddio ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yn Atodlen 1, hyd at derfyn y gofyniad net am arian parod a nodir yn Atodlen 5.

4. Er gwaethaf paragraffau 2(a) a (b), caiff yr adnoddau y gellir eu defnyddio ar gyfer y gwasanaethau a'r dibenion a bennir yng Ngholofn 1 o Atodlen 1 (neu, fel y bo'n briodol, yng Ngholofn 2 o bob Rhan o Atodlen 2), fod yn uwch na'r swm a bennir yn y cofnod cyfatebol yng Ngholofn 2 o Atodlen 1 (neu, fel y bo'n briodol, ym mhob rhan o Atodlen 2)-

(a) os bodlonir yr amod cyntaf, yn achos adnoddau heb gynnwys adnoddau cronnus, neu

(b) os bodlonir yr ail amod, yn achos adnoddau cronnus.

5. Yr amod cyntaf yw nad yw cyfanswm yr adnoddau (heb gynnwys adnoddau cronnus) a ddefnyddir yn ystod y flwyddyn ariannol yn dod i ben 31 Mawrth 2019 ar gyfer yr holl wasanaethau a dibenion a bennir yng Ngholofn 1 o Atodlen 1 yn uwch na chyfanswm y symiau a bennir yng Ngholofn 2 o'r Atodlen honno.

6. Yr ail amod yw nad yw cyfanswm yr adnoddau cronnus a ddefnyddir yn ystod y flwyddyn ariannol yn dod i ben 31 Mawrth 2019 ar gyfer yr holl wasanaethau a dibenion a bennir yng Ngholofn 2 o Atodlen 2 yn uwch na chyfanswm y symiau a bennir ar gyfer pob rhan o'r Atodlen honno.

<u>Comisiwn y Cynulliad</u>

7. Awdurdodir Comisiwn y Cynulliad -

(a) i ddefnyddio adnoddau (heb gynnwys adnoddau cronnus) yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2019 ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yng Ngholofn 1 o Ran 1 o Atodlen 3, hyd at uchafswm y symiau cyfatebol a nodir yng Ngholofn 2 o Ran 1 o Atodlen 3;

(b) yn ogystal, i gadw incwm, yn y categorïau adnoddau cronnus a nodir yng Ngholofn 1 o Ran 1 o Atodlen 4, yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2019, ar gyfer ei ddefnyddio ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yn y mannau cyfatebol yng Ngholofn 2 o Ran 1 o'r Atodlen honno, hyd at y terfyn a nodir ar gyfer Rhan 1 o'r Atodlen honno; ac

(c) i gymryd arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru i'w ddefnyddio ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yng Ngholofn 1 o Ran 1 o Atodlen 3, hyd at derfyn y gofyniad net am arian parod a nodir yn Atodlen 5.

<u>Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru</u>

8. Awdurdodir Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru -

(a) i ddefnyddio adnoddau (heb gynnwys adnoddau cronnus) yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2019 ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yng Ngholofn 1 o Ran 2 o Atodlen 3, hyd at uchafswm y symiau cyfatebol a nodir yng Ngholofn 2 o Ran 2 o Atodlen 3;

(b) yn ogystal, i gadw incwm, yn y categorïau adnoddau cronnus a nodir yng Ngholofn 1 o Ran 2 o Atodlen 4, yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2019, ar gyfer ei ddefnyddio ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yn y mannau cyfatebol yng Ngholofn 2 o Ran 2 o'r Atodlen honno, hyd at y terfyn a nodir ar gyfer Rhan 2 o'r Atodlen honno; ac

(c) i gymryd arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru i'w ddefnyddio ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yng Ngholofn 1 o Ran 2 o Atodlen 3, hyd at derfyn y gofyniad net am arian parod a nodir yn Atodlen 5.

<u>Swyddfa Archwilio Cymru</u>

9. Awdurdodir Swyddfa Archwilio Cymru -

(a) i ddefnyddio adnoddau (heb gynnwys adnoddau cronnus) yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2019 ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yng Ngholofn 1 o Ran 3 o Atodlen 3, hyd at uchafswm y symiau cyfatebol a nodir yng Ngholofn 2 o Ran 3 o Atodlen 3;

(b) yn ogystal, i gadw incwm, yn y categorïau adnoddau cronnus a nodir yng Ngholofn 1 o Ran 3 o Atodlen 4, yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2019, ar gyfer ei ddefnyddio ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yn y mannau cyfatebol yng Ngholofn 2 o Ran 3 o'r Atodlen honno, hyd at y terfyn a nodir ar gyfer Rhan 3 o'r Atodlen honno; ac

(c) i gymryd arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru i'w ddefnyddio ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yng Ngholofn 1 o Ran 3 o Atodlen 3, hyd at derfyn y gofyniad net am arian parod a nodir yn Atodlen 5.

Manyleb y Categorïau o Adnoddau Cronnus

10. Mae'r categorïau o adnoddau cronnus a restrir yng Ngholofn 1 o bob Rhan o Atodlen 2, ac yng Ngholofn 1 o bob Rhan o Atodlen 4, yn gategorïau penodedig at ddibenion Adran 120(2)(a) o'r Ddeddf."

## Crynodeb o'r Gofynion Adnoddau a Chyfalaf

***Gweinidogion Cymru***

| **Cwmpas** | **Adnoddau (£000)** | **Adnoddau Cronnus (£000)** |
|---|---|---|
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 7,794,716 | 68,844 |
| Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus | 4,260,745 | 470 |
| Yr Economi a Thrafnidiaeth | 1,135,126 | 79,835 |
| Addysg | 2,416,689 | 244,126 |
| Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig | 341,454 | 350,156 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 322,423 | 412,719 |
| **Cyfanswm yr Adnoddau y Gofynnir Amdanynt a'r Incwm Cronnus mewn perthynas â Gweinidogion Cymru** | **16,271,153** | **1,156,150** |

***Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol***

| **Cwmpas** | **Adnoddau (£000)** | **Adnoddau Cronnus (£000)** |
|---|---|---|
| Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru | 56,088 | 300 |
| Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | 4,480 | 62 |
| Swyddfa Archwilio Cymru | 7,261 | 14,644 |
| **Cyfanswm yr Adnoddau a'r Incwm Cronnus ar gyfer Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol** | **67,829** | **15,006** |

## Atodlen 1 – Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru

| **Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru (ac eithrio adnoddau cronnus)** | |
|---|---|
| ***Colofn 1***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion* | ***Colofn 2***<br><br>*Swm £000* |
| **Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**<br><br>I'w ddefnyddio gan Weinidogion Cymru ar Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gan gynnwys hybu, gwella neu gefnogi llesiant economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol.<br><br>Cyflenwi gwasanaethau GIG craidd a gwasanaethau GIG wedi'u targedu, gan gynnwys namau a darpariaethau; cefnogi addysg a hyfforddiant i weithlu'r GIG, polisïau a deddfwriaeth iechyd meddwl, hosbisau a chyflawni cynllun gweithredu'r strategaeth camddefnyddio sylweddau; noddi cyrff iechyd cyhoeddus, yr Asiantaeth Safonau Bwyd; rhaglenni iechyd y cyhoedd; trefniadau effeithiol i baratoi ar gyfer argyfwng iechyd; datblygu a gweithredu ymchwil a datblygu er budd cleifion a'r cyhoedd; gofal a chymorth cymdeithasol, partneriaethau ac integreiddio, gwasanaethau cymdeithasol cynaliadwy, Gofal Cymdeithasol Cymru; cyllid ar gyfer y Comisiynydd Pobl Hŷn; cyllid ar gyfer y Comisiynydd Plant a CAFCASS; gwariant ar gefnogi plant ac unrhyw wariant cysylltiedig a defnydd o adnoddau anghyllidol. | **7,794,716** |

| **Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru (ac eithrio adnoddau cronnus)** | |
|---|---|
| ***Colofn 1***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion* | ***Colofn 2***<br><br>*Swm £000* |
| **Llywodraeth Leol a  Gwasanaethau Cyhoeddus**<br><br>I'w ddefnyddio gan Weinidogion Cymru ar lywodraeth leol gan gynnwys hybu, gwella neu gefnogi llesiant economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol.<br><br>Cyllido, gan gynnwys cyllid cyfalaf cyffredinol, cymorth cyllid i lywodraeth leol a gwasanaethau prisio; meithrin democratiaeth leol; gwella llywodraeth leol; Academi Wales; cefnogi cydweithredu a diwygio; cyllido'r Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac Estyn; y Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol; Galluogi Plant a Chymunedau; Polisi Tai; Cymunedau, Tai a Lleoedd Mwy Diogel ac unrhyw wariant cysylltiedig a defnydd o adnoddau anghyllidol. | **4,260,745** |

| **Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru (ac eithrio adnoddau cronnus)** | |
|---|---|
| ***Colofn 1***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion* | ***Colofn 2***<br><br>*Swm £000* |
| **Yr Economi  a Thrafnidiaeth**<br><br>I'w ddefnyddio gan Weinidogion Cymru ar yr Economi a Thrafnidiaeth gan gynnwys hybu a chefnogi llesiant economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol busnesau, unigolion, cymunedau a lleoedd yng Nghymru.<br><br>Gwariant ar sectorau, entrepreneuriaeth a gwybodaeth fusnes; arloesi; gwyddoniaeth; digwyddiadau mawr; darparu seilwaith TGCh a seilwaith sy'n gysylltiedig ag eiddo; rhaglenni corfforaethol a strategol; Banc Datblygu Cymru; Cyllid Cymru; gweithrediadau traffyrdd a chefnffyrdd; gwella a chynnal y rhwydwaith cefnffyrdd; gwasanaethau a buddsoddiadau ffyrdd, rheilffyrdd, awyr a môr; teithio cynaliadwy; gwella diogelwch ar y ffyrdd; cefnogi a chynnal sector celfyddydau cryf trwy Gyngor y Celfyddydau ac eraill; annog defnyddio a dysgu gydol oes trwy wasanaethau amgueddfeydd a llyfrgelloedd; arweinyddiaeth strategol ar gyfer gwasanaethau amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd; y cyfryngau a chyhoeddi; cadw, gwarchod, cynnal a hyrwyddo mynediad at yr amgylchedd hanesyddol a naturiol; hyrwyddo chwaraeon a bywydau gweithgar drwy Chwaraeon Cymru ac eraill ac unrhyw wariant cysylltiedig a defnydd o adnoddau anghyllidol sy’n rhoi budd economaidd ehangach i Gymru. | **1,135,126** |

| **Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru (ac eithrio adnoddau cronnus)** | |
|---|---|
| ***Colofn 1***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion* | ***Colofn 2***<br><br>*Swm £000* |
| **Addysg**<br><br>I'w ddefnyddio gan Weinidogion Cymru ar Addysg gan gynnwys hybu, gwella neu gefnogi llesiant economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol.<br><br>Gwariant ar safonau addysg a hyfforddiant, gan gynnwys llythrennedd a rhifedd, cwricwlwm, addysgu ac arweinyddiaeth, cymwysterau, addysg ôl-16, addysg uwch, grant amddifadedd disgyblion, TGCh a systemau rheoli gwybodaeth, a darpariaeth TG ac ystadau; ymgysylltiad a chyflogaeth ieuenctid; llesiant plant a phobl ifanc; cymorth i ddysgwyr ôl-16; ennyn diddordeb disgyblion; y Gymraeg mewn addysg; yr iaith Gymraeg; cymorth cyflawni; dysgu seiliedig ar waith; cyflwyno cymorth ar gyfer sgiliau; polisi sgiliau; cyflogaeth a sgiliau; dewis addysgol a gyrfaoedd ac unrhyw wariant cysylltiedig a defnydd o adnoddau anghyllidol. | **2,416,689** |

| **Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru (ac eithrio adnoddau cronnus)** | |
|---|---|
| ***Colofn 1***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion* | ***Colofn 2***<br><br>*Swm £000* |
| **Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig**<br><br>I'w ddefnyddio gan Weinidogion Cymru ar Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig, gan gynnwys hybu, gwella neu gefnogi llesiant economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol.<br><br>Datblygu a gweithredu polisi a rhaglenni cyffredinol ar ddatblygu cynaliadwy a rheoli cyfoeth naturiol, amaethyddiaeth, bwyd a'r môr; datblygu a gweithredu polisi newid yn yr hinsawdd, effeithlonrwydd ynni, Twf Gwyrdd, seilwaith gwyrdd, diogelu'r amgylchedd, perygl o lifogydd a pherygl i'r arfordir, a pholisi a deddfwriaeth dŵr a charthion; rheoli a gweithredu'r strategaeth wastraff a'r rhaglen caffael gwastraff; Cynllun Cymunedau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi; darparu polisïau gwarchod natur a choedwigaeth; noddi a rheoli cyrff cyflawni; datblygu sylfaen dystiolaeth briodol i ategu gwaith Adran yr Amgylchedd a Materion Gwledig.; gwarchod iechyd anifeiliaid, planhigion a gwenyn a datblygu polisïau addasu genetig; hyrwyddo a chefnogi tirweddau gwarchodedig a mynediad ehangach at fannau gwyrdd; cynllunio a rheoleiddio; gweinyddu a chyflawni'r Polisi Amaethyddol Cyffredin; darparu'r rhaglenni yn y Cynllun Datblygu Gwledig; cefnogi newydd-ddyfodiaid i ffermio, ffermwyr a chymunedau gwledig Cymru; datblygu ar sail tystiolaeth ar gyfer materion gwledig; datblygu a rheoli môr, pysgodfeydd a dyframaethu Cymru gan gynnwys gorfodi pysgodfeydd Cymru; datblygu a marchnata bwyd a diod Cymru, ac unrhyw wariant cysylltiedig a defnydd o adnoddau anghyllidol. | **341,454** |

| Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru (ac eithrio adnoddau cronnus) | |
|---|---|
| ***Colofn 1***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion* | ***Colofn 2***<br><br>*Swm £000* |
| **Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu**<br><br>I'w ddefnyddio gan Weinidogion Cymru ar Wasanaethau Canolog a Gweinyddu ac ar hyrwyddo cydraddoldeb ac atal trais.<br><br>Gwariant ar gostau rhedeg Llywodraeth Cymru (gan gynnwys costau staff; gweinyddu cyffredinol; cyfalaf a thaliadau cyfalaf; costau TG; gwella busnes; a darpariaethau ar gyfer ymddeol yn gynnar a phensiynau; costau etholiadau a refferenda; gwybodaeth ystadegol ac ymchwil; cyllido cyrff allanol; cyfrifoldebau cyllidol (gan gynnwys trethi datganoledig a benthyca); gwasanaethau caffael (Cymru gyfan); digwyddiadau a chyfathrebu corfforaethol; ymholiadau ac ymchwiliadau; gweithgarwch rhyngwladol; y Gronfa Buddsoddi i Arbed; rheoli'r modd y darperir cyllid Ewropeaidd yng Nghymru; atal trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol; a sefydlu a chynnal safleoedd Sipsiwn/Teithwyr ac unrhyw wariant cysylltiedig a defnydd o adnoddau anghyllidol. | **322,423** |

## Atodlen 2 – Defnydd o adnoddau cronnus gan Weinidogion Cymru

### Rhan 1: Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

| ***Colofn 1***<br><br>*Categori adnoddau cronnus* | ***Colofn 2***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion y gellir cadw'r incwm ar eu cyfer* |
|---|---|
| Mae'r adnoddau cronnus yn cynnwys incwm o dan y Cynllun Rheoleiddio Prisiau Fferyllol; incwm mewn perthynas â setliadau hawliadau cyfreithiol; tâl am lety, nwyddau a gwasanaethau i gleifion preifat, cleifion y GIG, awdurdodau lleol ac eraill; ad-daliadau cyllid Buddsoddi i Arbed gan Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau GIG Cymru; incwm oddi wrth Lywodraeth yr Alban, Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, yr Adran Iechyd, adrannau llywodraeth eraill a'r Undeb Ewropeaidd; incwm o hysbysiadau cosb benodedig a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013: cynlluniau creu incwm; incwm anweithredol drwy werthu tir, adeiladau, cerbydau, offer ac eiddo, ac adennill TAW; incwm o gynlluniau a chytundebau ad-dalu. | Mae'r gwasanaethau a'r dibenion yn cynnwys gwariant ar wasanaethau iechyd sylfaenol a chymunedol; gwariant gan Ymddiriedolaethau GIG Cymru, Byrddau Iechyd Lleol a darparwyr gofal iechyd cysylltiedig yn prynu neu'n caffael asedau sefydlog; cefnogaeth i ddarparu a gweinyddu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. |
| **Cyfanswm yr incwm (£000)** | **68,844** |

**Rhan 2: Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus**

| ***Colofn 1***<br><br>*Categori adnoddau cronnus* | ***Colofn 2***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion y gellir cadw'r incwm ar eu cyfer* |
|---|---|
| Mae'r adnoddau cronnus yn cynnwys arian grant oddi wrth y Comisiwn Ewropeaidd; ad-daliadau ac adennill taliadau grant ac adennill TAW; ffioedd a thaliadau a godwyd am gynnal arolygiadau a gwasanaethau rheoleiddio; incwm o werthiant asedau cyfalaf; incwm o ad-daliadau'r Grant Tai Cymdeithasol; darparu digwyddiadau hyfforddi a datblygu; ad-daliadau darparwyr hyfforddiant; taliadau am gofrestriadau deintyddol; incwm o secondiadau staff; ad-daliadau benthyciadau staff; incwm o rentu eiddo; iawndal o dan setliadau masnachol a sifil a chodi ffioedd hwyluso. | Mae'r gwasanaethau a'r dibenion yn cynnwys costau rhedeg, costau gweinyddu cyffredinol a gwariant adnoddau'r Arolygiaethau a'r Tribiwnlys Prisio; darparu ymyriadau hyfforddiant i Wasanaeth Cyhoeddus Cymru; gwariant ategol ar gymunedau mwy diogel ac adfywio; talu grantiau i awdurdodau lleol a chyrff y Trydydd Sector;<br>pob prosiect sy'n cael arian Ewropeaidd; ac i gefnogi'r holl wariant sydd wedi'i nodi yn y Cwmpas gwariant. |
| **Cyfanswm yr incwm (£000)** | **470** |

## Rhan 3: Yr Economi a Thrafnidiaeth

| ***Colofn 1***<br><br>*Categori adnoddau cronnus* | ***Colofn 2***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion y gellir cadw'r incwm ar eu cyfer* |
|---|---|
| Adnoddau cronnus ac arian naill ai yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol gan y Comisiwn Ewropeaidd; rhentu eiddo ac incwm cysylltiedig arall;taliadau gwasanaethau busnes; cyfraniadau prosiect gan gyrff eraill yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat; incwm o fuddsoddiadau; ad-daliadau grant a chyllid busnes ad-daladwy; incwm o werthu asedau cyfalaf; incwm yn gysylltiedig â gweithgarwch twristiaeth; derbyniadau o astudiaethau trafnidiaeth; iawndal o dan setliadau masnachol a sifil a chodi ffioedd hwyluso; incwm Cadw a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru o godi tâl mynediad ar eu safleoedd a gwariant gweithredol arall; ac adennill TAW. | Pob prosiect sy'n cael arian Ewropeaidd ac i gefnogi'r holl wariant sydd wedi'i nodi yn y Cwmpas gwariant. |
| **Cyfanswm yr incwm (£000)** | **79,835** |

**Rhan 4: Addysg**

| ***Colofn 1***<br>*Categori adnoddau cronnus* | ***Colofn 2***<br>*Gwasanaethau a dibenion y gellir cadw'r incwm ar eu cyfer* |
|---|---|
| Mae'r adnoddau cronnus yn cynnwys incwm o brosiectau Ewropeaidd, ymchwil a gwerthuso; breindaliadau cwricwlwm; adennill Benthyciadau Myfyrwyr; arian o gronfa Cyfalaf Ymchwil Addysg Uwch; gwerthu cyhoeddiadau ac adennill TAW.<br>Mae'r adnoddau cronnus yn cynnwys ad-daliadau ac adennill taliadau grant; ffioedd a thaliadau a godwyd am gynnal arolygiadau a gwasanaethau rheoleiddio; darparu digwyddiadau hyfforddi a datblygu; incwm o secondiadau staff; ad-daliadau benthyciadau staff; incwm o werthiant asedau cyfalaf; adennill benthyciadau a wnaethpwyd ac unrhyw daliadau llog arnynt; adenillion a grantiau ad hoc o ffynonellau eraill. | Mae'r gwasanaethau a'r dibenion yn cynnwys cefnogi prosiectau Ewropeaidd, Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru, datblygu rhaglenni, gwariant cyfredol ar ymchwil a gwerthuso; i gefnogi gwariant cyfredol ar y cwricwlwm ac i gefnogi pob gwariant sydd wedi'i nodi yn y Cwmpas gwariant. |
| **Cyfanswm yr incwm (£000)** | **244,126** |

## Rhan 5: Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig

| ***Colofn 1***<br><br>*Categori adnoddau cronnus* | ***Colofn 2***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion y gellir cadw'r incwm ar eu cyfer* |
|---|---|
| Mae'r adnoddau cronnus yn cynnwys arian naill ai yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol gan y Comisiwn Ewropeaidd, gan gynnwys incwm o gronfeydd strwythurol Ewropeaidd; incwm o'r UE i gefnogi ffermwyr a chymunedau gwledig yng Nghymru; incwm o brosiectau ffermydd gwynt; incwm o Fferm Pwllpeiran; incwm o werthu asedau cyfalaf, gan gynnwys adeiladau; incwm o adennill grantiau o'r awdurdodau lleol, cyrff y trydydd sector a chyrff eraill y sector cyhoeddus a'r sector preifat; dirwyon cosb sifil yn gysylltiedig â chynlluniau masnachu allyriadau; cosbau yn gysylltiedig â thargedau ailgylchu; incwm o drwyddedau morol; incwm o achub carcasau o anifeiliaid sydd wedi'u lladd ar gyfer rheoli clefydau; grantiau ad hoc o ffynonellau eraill ac adennill TAW; arian o adrannau eraill y llywodraeth ganolog ac incwm sy'n gysylltiedig ag Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig. | Mae'r gwasanaethau a'r dibenion yn cynnwys gwariant sy'n ymwneud â Fferm Pwllpeiran; taliadau grant, cynlluniau a ariennir yn rhannol gan adrannau eraill o'r llywodraeth; pob prosiect sy'n cael arian Ewropeaidd ac i gefnogi'r holl wariant sydd wedi'i nodi yn y Cwmpas gwariant. |
| **Cyfanswm yr incwm (£000)** | **350,156** |

## Rhan 6: Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu

| ***Colofn 1***<br><br>*Categori adnoddau cronnus* | ***Colofn 2***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion y gellir cadw'r incwm ar eu cyfer* |
|---|---|
| Mae'r adnoddau cronnus yn cynnwys incwm o weithgarwch gweinyddol megis: gwerthu nwyddau neu wasanaethau; gwerthu tir neu adeiladau; adennill costau; secondio staff a ffioedd staff; ad-dalu benthyciadau staff; adennill taliadau grant; ad-dalu didyniadau statudol o dan PAYE; adennill trethi gan gynnwys TAW; is-osod eiddo; gwerthu asedau gweinyddol; gwerthu nwyddau a gwasanaethau; incwm gweinyddol; incwm o wasanaethau TGCh a ddarparwyd; ad-daliadau darparwyr hyfforddiant; adennill y costau a rennir â chyrff eraill yn y sector cyhoeddus; derbyniadau o grantiau adenilladwy gan gynnwys derbyniadau Buddsoddi i Arbed; a chyllid naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol oddi wrth y Comisiwn Ewropeaidd. | Mae'r gwasanaethau a'r dibenion yn cynnwys ariannu: costau cynnal a gwariant gweinyddol cyffredinol; cefnogi gwariant cyfalaf ar sylfaen ystadau ac asedau Llywodraeth Cymru; cefnogi cydraddoldeb ac atal trais; a phob prosiect sy'n cael arian Ewropeaidd. |
| **Cyfanswm yr incwm (£000)** | **412,719** |

## Atodlen 3 – Gwariant Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol (heb gynnwys adnoddau cronnus)

### Rhan 1 – Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru

| ***Colofn 1***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion* | ***Colofn 2***<br><br>*Swm £000* |
|---|---|
| Adnoddau heblaw adnoddau cronnus i'w defnyddio gan Gomisiwn y Cynulliad ar gostau adnoddau a chyfalaf sy'n gysylltiedig â gweinyddu a gweithredu Gwasanaethau'r Cynulliad i gefnogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru ('y Cynulliad'); hyrwyddo'r Cynulliad gan gynnwys taliadau i'r Comisiwn Etholiadol ac eraill; taliadau mewn perthynas â'r Comisiynydd Safonau a'r Bwrdd Cydnabyddiaethau Ariannol; unrhyw daliadau eraill sy'n ymwneud â swyddogaethau'r Cynulliad neu swyddogaethau Comisiwn y Cynulliad. Adnoddau heblaw adnoddau cronnus i'w defnyddio gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â phenderfyniadau'r Bwrdd Cydnabyddiaethau Ariannol a gwariant yn ymwneud â darpariaeth pensiynau Aelodau'r Cynulliad. | **56,088** |

### Rhan 2 - Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

| ***Colofn 1***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion* | ***Colofn 2***<br><br>*Swm £000* |
|---|---|
| Adnoddau heblaw adnoddau cronnus i'w defnyddio gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ('yr Ombwdsmon') ar gostau adnoddau a chyfalaf sy'n gysylltiedig â gweinyddu swyddfa'r Ombwdsmon; taliadau i gymdeithas Ombwdsmyn Prydain ac Iwerddon; taliadau i'r Sefydliad Ombwdsmyn Rhyngwladol; ac eitemau anghyllidol cysylltiedig. | **4,480** |

### Rhan 3 – Swyddfa Archwilio Cymru

| ***Colofn 1***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion* | ***Colofn 2***<br><br>*Swm £000* |
|---|---|
| Adnoddau heblaw adnoddau cronnus i'w defnyddio gan Swyddfa Archwilio Cymru ar gyflawni swyddogaethau statudol Swyddfa Archwilio Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol, ac ar weinyddu Swyddfa Archwilio Cymru. | **7,261** |

## Atodlen 4 – Defnydd o Adnoddau Cronnus gan Gyrff a Ariennir yn Uniongyrchol

### Rhan 1 – Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru

| ***Colofn 1***<br><br>*Categori adnoddau cronnus* | ***Colofn 2***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion y gellir cadw'r incwm ar eu cyfer* |
|---|---|
| Adnoddau cronnus i'w cadw yn unol ag adran 120(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac i'w defnyddio gan Gomisiwn y Cynulliad drwy waredu asedau sefydlog ac incwm cyfalaf arall; incwm rhenti; rhoddion; cymorth grant; ailgodi tâl; incwm o werthiant masnachol a gwasanaethau eraill a ddarperir i'r cyhoedd ac eraill. | I'w defnyddio i brynu neu gaffael asedau sefydlog ac i'w defnyddio i dalu costau gweinyddol y Cynulliad. |
| **Cyfanswm yr incwm (£000)** | **300** |

### Rhan 2 – Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

| ***Colofn 1***<br><br>*Categori adnoddau cronnus* | ***Colofn 2***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion y gellir cadw'r incwm ar eu cyfer* |
|---|---|
| Incwm o werthiant masnachol a gwasanaethau eraill a ddarperir i'r cyhoedd ac eraill. | I'w defnyddio ar wasanaethau cysylltiedig ac ar weinyddu gwasanaeth yr Ombwdsmon. |
| **Cyfanswm yr incwm (£000)** | **62** |

## Rhan 3 – Swyddfa Archwilio Cymru

| ***Colofn 1***<br><br>*Categori adnoddau cronnus* | ***Colofn 2***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion y gellir cadw'r incwm ar eu cyfer* |
|---|---|
| Adnoddau cronnus o ffioedd a thaliadau am wasanaethau archwilio, ardystio grantiau a gwasanaethau cysylltiedig; grantiau a dderbynnir i ariannu gwasanaethau archwilio; adennill costau eraill sy'n gysylltiedig â swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol neu Swyddfa Archwilio Cymru; amryfal incwm o gyhoeddiadau, cynadleddau, darparu gwasanaethau gweinyddol, proffesiynol a thechnegol; adennill costau, er enghraifft staff wedi'u secondio, benthyciadau i staff, taliadau lesio ceir; adennill unrhyw gostau yr eir iddynt ar ran trydydd parti; a llog a dderbynnir ar falansau gwaith. | I'w defnyddio gan Swyddfa Archwilio Cymru ar gyflawni swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol ac ar wasanaethau cysylltiedig â gweinyddu Swyddfa Archwilio Cymru. |
| **Cyfanswm yr incwm (£000)** | **14,644** |

# Atodlen 5: Cysoni Adnoddau ag Arian Parod – 2018-19 (£000)

***Tabl 1: Cysoni Adnoddau ag arian parod ar gyfer 2018-19 a gynhwysir yng Nghynnig y Gyllideb Flynyddol Rhagfyr 2017 (£000)***

| | Gweinidogion Cymru | Comisiwn y Cynulliad | Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus | Swyddfa Archwilio Cymru |
|---|---|---|---|---|
| **Gofyniad Adnoddau Net** | 14,850,869 | 55,588 | 4,455 | 6,981 |
| **Gofyniad Cyfalaf Net** | 1,221,252 | 500 | 25 | 280 |
| Addasiadau: | | | | |
| Taliadau cyfalaf | -393,541 | -2,400 | -70 | -200 |
| Amhariadau | -73,086 | 0 | 0 | 0 |
| Symudiadau yn y darpariaethau | -64,939 | -2,000 | -20 | 0 |
| Elw/Colled wrth werthu asedau | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Symudiadau mewn stociau | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Symudiadau mewn dyledwyr/credydwyr | 0 | 350 | 20 | 0 |
| Defnyddio darpariaethau | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Arall | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Gofyniad Arian Parod Net i ddod o Gronfa Gyfunol Cymru** | **15,540,555** | **52,038** | **4,410** | **7,061** |

***Tabl 2: Newidiadau i Gysoni Adnoddau ag arian parod a gynhwysir yng Nghynnig Atodol y Gyllideb hon (£000)***

| | Gweinidogion Cymru | Comisiwn y Cynulliad | Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus | Swyddfa Archwilio Cymru |
|---|---|---|---|---|
| **Gofyniad Adnoddau Net** | **66,654** | **0** | **0** | **0** |
| **Gofyniad Cyfalaf Net** | **132,378** | **0** | **0** | **0** |
| Addasiadau: | | | | |
| Taliadau cyfalaf | 25 | 0 | 0 | 0 |
| Amhariadau | -39,148 | 0 | 0 | 0 |
| Symudiadau yn y darpariaethau | 24,000 | 0 | 0 | 0 |
| Elw/Colled wrth werthu asedau | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Symudiadau mewn stociau | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Symudiadau mewn dyledwyr/credydwyr | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Defnyddio darpariaethau | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Arall | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Gofyniad Arian Parod Net i ddod o Gronfa Gyfunol Cymru** | **183,909** | **0** | **0** | **0** |

***Tabl 3: Cysoni Adnoddau ag arian parod a gynhwysir yng Nghynnig Atodol y Gyllideb hon (£000)***

| | Gweinidogion Cymru | Comisiwn y Cynulliad | Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus | Swyddfa Archwilio Cymru |
|---|---|---|---|---|
| **Gofyniad Adnoddau Net** | **14,917,523** | **55,588** | **4,455** | **6,981** |
| **Gofyniad Cyfalaf Net** | **1,353,630** | **500** | **25** | **280** |
| Addasiadau: | | | | |
| Taliadau cyfalaf | -393,516 | -2,400 | -70 | -200 |
| Amhariadau | -112,234 | 0 | 0 | 0 |
| Symudiadau yn y darpariaethau | -40,939 | -2,000 | -20 | 0 |
| Elw/Colled wrth werthu asedau | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Symudiadau mewn stociau | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Symudiadau mewn dyledwyr/credydwyr | 0 | 350 | 20 | 0 |
| Defnyddio darpariaethau | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Arall | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Gofyniad Arian Parod Net i ddod o Gronfa Gyfunol Cymru** | **15,724,464** | **52,038** | **4,410** | **7,061** |

**Nodiadau:**

1. Mae cynnwys a fformat y tabl hwn yn cydymffurfio ag Adran 125(1)(c) a 126(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ("y Ddeddf"). Mae'r Adran hon yn pennu bod yn rhaid, er mwyn awdurdodi'r cynnig, gael datganiad sy'n awdurdodi "the amount which may be paid out of the Welsh Consolidated Fund in the financial year to the relevant persons, or for use pursuant to a relevant enactment, for the purposes so specified". Gwneir y taliadau o Gronfa Gyfunol Cymru mewn arian parod, felly mae'r tabl hwn yn dangos y gofynion perthnasol o ran arian parod i gefnogi'r adnoddau y gofynnir amdanynt i gefnogi Atodlen 1 i 4, sy'n rhestru'r dibenion perthnasol y gellir defnyddio adnoddau ar eu cyfer.

2. Mae cynnwys a fformat y tabl hwn hefyd yn cydymffurfio â Rheol Sefydlog 20.28(v), sy'n pennu bod yn rhaid i gynnig y gyllideb gynnwys cysoniad o'r adnoddau sydd i'w hawdurdodi o dan Adran 125(1)(a) a (b) o'r Ddeddf â'r symiau sydd i'w hawdurdodi i'w talu o Gronfa Gyfunol Cymru o dan Adran 125(c) o'r Ddeddf.

## Atodlen 6: Cysoni adnoddau y gofynnir amdanynt yng Nghynnig y gyllideb â'r adnoddau a ddarperir gan y Trysorlys ar gyfer Bloc Cymru ar gyfer 2018-19

### *Tabl 1: Cysoni Adnoddau y Gofynnir amdanynt yng Nghynnig y Gyllideb Flynyddol Rhagfyr 2017 â'r adnoddau a ddarperir gan y Trysorlys ar gyfer Cymru (£000)*

| | 2018-19 (£000) | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **DEL Adnoddau** | **DEL Cyfalaf** | **AME Adnoddau** | **AME Cyfalaf** | **Cyfanswm** |
| *Adnoddau y gofynnir amdanynt yng Nghynnig y Gyllideb:* | | | | | |
| - Gweinidogion Cymru | 14,792,420 | 562,813 | 58,449 | 658,439 | 16,072,121 |
| - Comisiwn y Cynulliad | 53,588 | 500 | 2,000 | 0 | 56,088 |
| - Ombwdsmon | 4,435 | 25 | 20 | 0 | 4,480 |
| - Swyddfa Archwilio Cymru | 6,981 | 280 | 0 | 0 | 7,261 |
| **Cyfanswm yr adnoddau y gofynnir amdanynt yng Nghynnig y Gyllideb Flynyddol** | **14,857,424** | **563,618** | **60,469** | **658,439** | **16,139,950** |
| *Addasiadau:* | | | | | |
| (i) Defnydd adnoddau gan Gyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru | 14,083 | 0 | 5,413 | 0 | 19,496 |
| (ii) Grantiau | -956,565 | 956,565 | 0 | 0 | 0 |
| (iii) Benthyca â chymorth | 0 | 88,800 | 0 | 0 | 88,800 |
| (iv) Taliadau a godir yn uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru | 2,719 | 0 | 1,050,000 | 0 | 1,052,719 |
| (v) Arall | 14,807 | 0 | 0 | 0 | 14,807 |
| **Cyfanswm Gwariant a Reolir – Gweinidogion Cymru a Chyrff a Noddir yn Uniongyrchol** | **13,932,468** | **1,608,983** | **1,115,882** | **658,439** | **17,315,772** |
| - Swyddfa Cymru | 4,650 | 30 | 0 | 0 | 4,680 |
| - Benthyca | 0 | -125,000 | 0 | 125,000 | 0 |
| - Trethi Datganoledig | -275,384 | 0 | 275,384 | 0 | 0 |
| - Cronfa wrth gefn heb ei chlustnodi | 275,120 | 416,711 | 0 | 0 | 691,831 |
| **Cyfanswm y Gwariant a Reolir (Bloc)** | **13,936,854** | **1,900,724** | **1,391,266** | **783,439** | **18,012,283** |

## *Tabl 2: Newidiadau i Gysoni Adnoddau y Gofynnir amdanynt yng Nghynnig y Gyllideb Flynyddol Rhagfyr 2017 â'r adnoddau a ddarperir gan y Trysorlys ar gyfer Cymru (£000)*

| | 2018-19 (£000) | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | DEL Adnoddau | DEL Cyfalaf | AME Adnoddau | AME Cyfalaf | Cyfanswm |
| *Adnoddau y gofynnir amdanynt yng Nghynnig y Gyllideb:* | | | | | |
| - Gweinidogion Cymru | 54,757 | 126,601 | 11,897 | 5,777 | 199,032 |
| - Comisiwn y Cynulliad | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| - Ombwdsmon | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| - Swyddfa Archwilio Cymru | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm yr adnoddau y gofynnir amdanynt yng Nghynnig y Gyllideb Atodol** | **54,757** | **126,601** | **11,897** | **5,777** | **199,032** |
| *Addasiadau:* | | | | | |
| (i) Defnydd adnoddau gan Gyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru | 25 | 0 | 0 | 0 | 25 |
| (ii) Grantiau | -39,396 | 39,396 | 0 | 0 | 0 |
| (iii) Benthyca â chymorth | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| (iv) Taliadau a godir yn uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru | -345 | 0 | 0 | 0 | -345 |
| (v) Arall | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm yr addasiadau yng Nghynnig y Gyllideb Atodol** | **15,041** | **165,997** | **11,897** | **5,777** | **198,712** |
| - Swyddfa Cymru | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| - Benthyca | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| - Trethi Datganoledig | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| - Cronfa wrth gefn heb ei chlustnodi | -7,322 | -163,236 | 0 | 0 | -170,558 |
| **Cyfanswm y Gwariant a Reolir (Bloc)** | **7,719** | **2,761** | **11,897** | **5,777** | **28,154** |

## *Tabl 3: Cysoni Adnoddau y Gofynnir amdanynt yn y Gyllideb Atodol hon*

| | 2018-19 (£000) | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **DEL Adnoddau** | **DEL Cyfalaf** | **AME Adnoddau** | **AME Cyfalaf** | **Cyfanswm** |
| *Adnoddau y gofynnir amdanynt yng Nghynnig y Gyllideb:* | | | | | |
| - Gweinidogion Cymru | 14,847,177 | 689,414 | 70,346 | 664,216 | 16,271,153 |
| - Comisiwn y Cynulliad | 53,588 | 500 | 2,000 | 0 | 56,088 |
| - Ombwdsmon | 4,435 | 25 | 20 | 0 | 4,480 |
| - Swyddfa Archwilio Cymru | 6,981 | 280 | 0 | 0 | 7,261 |
| **Cyfanswm yr adnoddau y gofynnir amdanynt yng Nghynnig y Gyllideb Atodol** | **14,912,181** | **690,219** | **72,366** | **664,216** | **16,338,982** |
| *Addasiadau:* | | | | | |
| (ii) Defnydd adnoddau gan Gyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru | 14,108 | 0 | 5,413 | 0 | 19,521 |
| (iii) Grantiau | -995,961 | 995,961 | 0 | 0 | 0 |
| (iv) Benthyca â chymorth | 0 | 88,800 | 0 | 0 | 88,800 |
| (v) Taliadau a godir yn uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru | 2,374 | 0 | 1,050,000 | 0 | 1,052,374 |
| (vi) Arall | 14,807 | 0 | 0 | 0 | 14,807 |
| **Cyfanswm Gwariant a Reolir – Gweinidogion Cymru a Chyrff a Noddir yn Uniongyrchol** | **13,947,509** | **1,774,980** | **1,127,779** | **664,216** | **17,514,484** |
| - Swyddfa Cymru | 4,650 | 30 | 0 | 0 | 4,680 |
| - Benthyca | 0 | -125,000 | 0 | 125,000 | 0 |
| - Trethi Datganoledig | -275,384 | 0 | 275,384 | 0 | 0 |
| - Cronfa wrth gefn heb ei chlustnodi | 267,798 | 253,475 | 0 | 0 | 521,273 |
| **Cyfanswm y Gwariant a Reolir (Bloc)** | **13,944,573** | **1,903,485** | **1,403,163** | **789,216** | **18,040,437** |

**Nodiadau:**

1. Mae cyfanswm gofyniad Llywodraeth Cymru am adnoddau yn gyfwerth â chyfanswm y dyraniadau a gynhwyswyd yn y Cwmpasau yn Atodlen 1.

2. Dywed Rheol Sefydlog 20.28(ii) y dylai cynnig y gyllideb flynyddol gynnwys yr adnoddau y mae’r Trysorlys yn cytuno arnynt ar gyfer cyllideb bloc Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r cynnig yn ymdrin â hi. Mae Atodlen 6 yn bodloni'r gofyniad hwn.

3. Dywed Rheol Sefydlog 20.28(iii) fod yn rhaid i gynnig y gyllideb flynyddol gynnwys cysoniad rhwng yr adnoddau a ddyrannwyd i gyllideb bloc Cymru gan y Trysorlys a'r adnoddau sydd i'w hawdurdodi i'w defnyddio yng nghynnig y gyllideb. Mae Atodlen 6 yn bodloni'r gofyniad hwn.

4. Mae'r atodlenni uchod yn dangos amrywiadau a awdurdodwyd ar gyfer y flwyddyn ariannol o dan Adran 126 o'r Ddeddf a Rheol Sefydlog 20.31.

5. Dyma'r taliadau a godir yn uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru:

| **Eitem** | **2018-19<br>£000** |
|---|---|
| Taliadau i'r Gronfa Fenthyciadau Genedlaethol – Llog [Nodyn] | 1,625 |
| Cyflogau a chostau pensiwn cysylltiedig y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd | 264 |
| Cyflogau a chostau pensiwn cysylltiedig yr Ombwdsmon | 201 |
| Cyflogau a chostau pensiwn cysylltiedig yr Archwilydd Cyffredinol | 235 |
| Cyflogau a chostau pensiwn cysylltiedig Cadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru | 29 |
| Cyflogau a chostau pensiwn cysylltiedig y Comisiynydd Safonau | 20 |
| Ardrethi Annomestig Cenedlaethol y gellir eu hailddosbarthu | 1,050,000 |
| **Cyfanswm** | **1,052,374** |

Nodyn:
Amcangyfrifir bod £120,000 yn ychwanegol i'w godi'n uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru mewn perthynas â'r prif ad-daliad i'r Gronfa Fenthyciadau Genedlaethol ar fenthyciad. Mae'r taliad hwn y tu allan i Gyfanswm y Gwariant a Reolir.

## Atodlen 7: Cysoni'r llif arian parod i Gronfa Gyfunol Cymru â'r arian parod y gofynnir amdano yng Nghynnig y Gyllideb (£000)

| | Darpariaeth Flaenorol 2018-19 | Newidiadau | Darpariaeth Ddiwygiedig 2018-19 |
|---|---|---|---|
| **Amcangyfrif o'r symiau net i'w talu i Weinidogion Cymru:** | | | |
| Grant i'w dalu gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru i Gronfa Gyfunol Cymru o dan Adran 118 (1) | 14,596,498 | 12,510 | 14,609,008 |
| Arian wedi'i fenthyca o'r Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol ac oddi wrth fanciau masnachol o dan Adran 121 | 125,000 | 0 | 125,000 |
| Taliadau gan Adrannau Llywodraeth eraill | 1,163,325 | 0 | 1,163,325 |
| Taliadau o ffynonellau eraill | 2,479,567 | 17,589 | 2,497,156 |
| Llai y symiau a awdurdodwyd i'w cadw gan Weinidogion Cymru a Chyrff a Gyllidir yn Uniongyrchol | -1,153,567 | -17,589 | -1,171,156 |
| **Amcangyfrif o'r symiau i'w talu i Weinidogion Cymru** | **17,210,823** | **12,510** | **17,223,333** |
| Dosbarthwyd fel a ganlyn: | | | |
| - Gweinidogion Cymru | 15,540,555 | 183,909 | 15,724,464 |
| - Comisiwn y Cynulliad | 52,038 | 0 | 52,038 |
| - Ombwdsmon | 4,410 | 0 | 4,410 |
| - Swyddfa Archwilio Cymru | 7,061 | 0 | 7,061 |
| **Arian a ryddheir o Gronfa Gyfunol Cymru yn y Cynnig** | **15,604,064** | **183,909** | **15,787,973** |
| Taliadau a godir yn uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru | 1,053,335 | -841 | 1,052,494 |
| Cronfeydd heb eu clustnodi | 553,424 | -170,558 | 382,866 |
| **Amcangyfrif o Gyfanswm y Taliadau** | **17,210,823** | **12,510** | **17,223,333** |

**Nodiadau:**

1. Mae Adran 125(3) o'r Ddeddf yn datgan bod yn rhaid i gynnig y gyllideb flynyddol gael ei ategu gan ddatganiad ysgrifenedig gan y Gweinidogion, yn dangos:

   i. cyfanswm y taliadau y maent yn amcangyfrif a wneir ar gyfer y flwyddyn ariannol o dan Adran 118(1);

   ii. cyfanswm y taliadau y maent yn amcangyfrif a wneir i Weinidogion Cymru, y Prif Weinidog neu'r Cwnsler Cyffredinol ar gyfer y flwyddyn ariannol gan Weinidogion y Goron ac adrannau'r llywodraeth; a

iii. cyfanswm y taliadau y maent yn amcangyfrif a wneir i Weinidogion Cymru, y Prif Weinidog neu'r Cwnsler Cyffredinol ar gyfer y flwyddyn ariannol heblaw gan Weinidogion y Goron neu adrannau'r llywodraeth.

2. Mae'r atodlen uchod yn dangos amrywiadau yn y symiau hyn fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 20.31

**Mehefin 2018**

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 6

**Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig**

**Y Pwyllgor Cyllid – Ymchwiliad i'r paratoadau ar gyfer yr hyn a fydd yn disodli ffrydiau cyllido'r UE yng Nghymru pan fydd y DU yn gadael yr UE**

**Cyflwyniad**

1. Dylid darllen y papur tystiolaeth hwn gyda'r hyn a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid cyn ei ymddangosiad gerbron y Pwyllgor – hefyd ar 27 Mehefin.

2. Fel mae papur Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid yn amlinellu mae ymchwiliad y Pwyllgor yn amserol, wrth i ni barhau i ddatblygu a chyhoeddi syniadau a chynigion ar sut y gellid buddsoddi'r hyn a ddaw yn lle cyllid yr UE yng Nghymru.

3. Mae gan Refferendwm yr UE oblygiadau difrifol i'm portffolio. Mae deddfwriaeth a chyllid Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd, Bwyd, Iechyd Anifeiliaid, Newid yn yr Hinsawdd a'r Amgylchedd wedi'u gwreiddio'n ddwfn yn fframwaith gweithredu'r UE. Mae'r polisi amaethyddol ac amgylcheddol wedi'i ddatganoli'n llwyr i Gymru ac mae yna feysydd lle mae dau ddegawd o ddatganoli wedi arwain at bolisi a deddfwriaeth sylfaenol sy'n amrywio mewn gwahanol rannau o'r DU.

4. Mae'r portffolio Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig yn goruchwylio bron i £340 miliwn y flwyddyn o'r £680 miliwn y flwyddyn o gyllid yr UE a ddaw i Gymru.

5. Rydym wedi manteisio i'r eithaf ar yr hyblygrwydd a roddwyd i ni ac mae'n cynlluniau wedi'u defnyddio fel enghreifftiau o arfer gorau ledled Ewrop.

6. Rydym wrthi'n ddiwyd yn ystyried ein hopsiynau gyda rhanddeiliaid Cymru er gwaethaf yr ansicrwydd sylweddol ynghylch y cyd-destun ariannol a deddfwriaethol y bydd unrhyw drefniadau cyllido'r dyfodol yn gweithredu ynddo.

**Disodli ffrydiau cyllido'r UE yng Nghymru**

7. Mae **Atodiad 1** yn amlinellu prif feysydd cyllid yr UE sy'n gysylltiedig â'm portffolio a'r lefelau cyllid cysylltiedig.

***Arian yr UE a reolir ym Mhrydain***

8. Mae'r brif ffynhonnell cyllid i fy mhortffolio'n deillio o'r Polisi Amaethyddol Cyffredin. Yn arbennig, Colofn 1 - Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (a fydd yn rhedeg o 2015 - 2020) a Cholofn 2 - Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020.

9. O ran taliadau uniongyrchol Colofn 1 y PAC, blwyddyn cynllun 2019 fydd yr olaf i'w gweinyddu gyda chyllid a rheolau'r UE, os cytunir ar gyfnod gweithredu (2018 os nad oes cytundeb). Bydd blynyddoedd cynllun 2020 a 2021 yn cael eu gweinyddu gydag arian cenedlaethol. Disgwylir y bydd angen gwneud addasiadau i linellau sylfaen adrannol i ddarparu Gwarant Llywodraeth y DU (i gynnal lefelau arian cyllid amaethyddol i ddiwedd y Senedd hon. Mae disgwyl i

gyllid amaethyddol y blynyddoedd dilynol fod yn rhan o Adolygiad Gwariant y DU 2019.

10. Yn achos cynlluniau Colofn 2 y PAC, bydd ymrwymiadau a wnaed at pan fydd y DU yn gadael yr UE yn cael eu hanrhydeddu gan Warant Llywodraeth y DU am oes y cytundeb. Bydd ymrwymiadau newydd y tu hwnt i 2020 yn cael eu gwneud yng nghyd-destun Gwarant Llywodraeth y DU i 2022.

11. Mae Llywodraeth Cymru yn gwneud y paratoadau angenrheidiol i weithredu newidiadau drwy ei system dalu ac eithrio ffermwyr Cymru a fydd yn parhau i dderbyn cymorth amaethyddol. Mae angen trafodaethau manwl i gytuno ar y lefelau cyllid a'r fframweithiau i'w sefydlu yn y DU, yr un pryd ag unrhyw drafodaethau a gynhelir gyda'r UE.

12. Ym mis Mai 2018, derbyniodd Llywodraeth Cymru fanylion pellach am Warant Llywodraeth y DU. Mae angen eglurhad pellach i sicrhau bod y warant yn cwmpasu'r ymrwymiad mwyaf o dan y Cynllun Datblygu Gwledig.

13. Mae'r canllawiau diweddaraf yn nodi nad yw Cymorth Technegol yn dod o dan y warant. Yng Nghymru, defnyddir Cymorth Technegol ar gyfer gweithgareddau gorfodol fel Monitro a Gwerthuso, Rhwydwaith Gwledig Cymru a'r systemau TG gofynnol yn ogystal â darparu cyllid ar gyfer rheoli ac arfarnu prosiectau.

14. Mae'r canllawiau hefyd yn egluro nad bwriad y warant yw cefnogi trefniadau cyllido rhwng cyrff llywodraeth. Gofynnwyd am eglurhad pellach sy'n dangos y gallai prosiectau penodol gan adrannau'r llywodraeth ddod o dan y warant o hyd, ond gallai cyllid a gafodd ei addo i gyrff cyfryngol sydd heb ei addo i brosiectau penodol fod y tu allan i gwmpas y warant nawr.

15. Mae swyddogion yn ystyried trefniadau eraill ar gyfer addo unrhyw gyllid a allai gael ei adael y tu allan i gwmpas y warant yn dilyn y canllawiau hyn. Gall opsiynau gynnwys gweithgareddau strategol, cylchoedd mynegi diddordeb ychwanegol ac ymestyn gweithgareddau cyfredol.

16. Ar 8 Mai cyflwynais Ddatganiad Llafar i'r Cyfarfod Llawn yn amlinellu fy nghynigion cychwynnol ar gymorth rheoli tir yn y dyfodol. Mae Brexit yn dod â newidiadau sylweddol ac mae'n rhaid i ni gael cyfnod pontio o sawl blwyddyn wedi'i gynllunio'n dda. Dysgais bwysigrwydd osgoi dull sydyn niweidiol o ddileu cymorthdaliadau yn ystod fy ymweliad diweddar â Seland Newydd.

17. Rwyf wedi pennu pum egwyddor fel sail i gymorth rheoli tir y dyfodol. Y rhain yw:

    1. Mae'n rhaid cadw rheolwyr tir ar y tir. I sicrhau'r budd gorau, dylai tir gael ei reoli gan y rhai sy'n ei nabod orau. Dyma beth sydd orau i'n hamgylchedd a'n cymunedau.

    2. Mae cynhyrchu bwyd yn parhau i fod yn hanfodol i'n gwlad.

    3. Bydd cymorth y dyfodol yn canolbwyntio ar ddarparu nwyddau cyhoeddus sy'n cyflawni ar gyfer holl bobl Cymru. Mae cyfoeth ac amrywiaeth tirwedd

Cymru'n golygu nad oes prinder nwyddau cyhoeddus i'w caffael, o aer glân, i reoli llifogydd, i gynefinoedd gwell.

4. Dylai pob rheolwr tir gael cyfle i elwa ar gynlluniau newydd. Fodd bynnag, efallai y bydd angen iddynt wneud pethau'n wahanol yn gyfnewid am gymorth.

5. Rydym angen sector amaethyddol ffyniannus a chryf yng Nghymru, waeth pa fath o Brexit a gawn. I droi hyn yn realiti, mae angen i ni newid y ffordd rydym yn cefnogi ffermwyr.

18. Felly, rydym yn bwriadu cael dwy elfen o gymorth, un ar gyfer gweithgareddau economaidd ac un ar gyfer cynhyrchu nwyddau cyhoeddus.

19. Byddaf yn gweithio i sicrhau dyraniad cyllid llawn a theg i gefnogi rheoli tir yng Nghymru. Hyd yma, mae Llywodraeth Cymru wedi methu darparu unrhyw fanylion neu ymrwymiad y tu hwnt i 2022. Byddwn yn parhau i fynnu bod Cymru'n derbyn ei chyfran gyfredol (10%) ac felly'n seiliedig ar angen, nid cyfran boblogaeth drwy Fformiwla Barnett (6%).

20. Roeddwn yn falch iawn bod Fergus Ewing, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi Wledig a Chysylltedd a Roseanna Cunningham, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd, Newid Hinsawdd a Diwgio Tir yn yr Alban wedi ymuno â mi i ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig i ofyn am eglurhad pellach ar gyllid y dyfodol. Rydym hefyd wedi sicrhau bod cyllid yn eitem sefydlog ar y cyfarfodydd misol rhwng y Gweinyddiaethau Datganoledig a'r Ysgrifennydd Gwladol.

21. Er yr ansicrwydd hwn rwyf am bennu amserlen glir ar gyfer ffermwyr Cymru. Rwyf am i'r cyfan fod wedi'i weithredu erbyn 2025. Byddaf yn nodi manylion pellach ym mis Gorffennaf a gallaf sicrhau y bydd newidiadau yn destun ymgynghoriad manwl.

22. Mae Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop (EMFF) yn ffynhonnell bwysig arall o gyllid ar gyfer cymunedau pysgota ac arfordirol ledled Cymru. Gan mai busnesau arfordirol bach sy'n gweithio yn y diwydiant pysgota yng Nghymru yn bennaf, mae'r gronfa hon yn hanfodol os ydynt am addasu i natur newidiol eu gweithgareddau a'r cadwyni cyflenwi wrth i ni adael yr Undeb Ewropeaidd. Fodd bynnag, mae EMFF yn rhaglen ar lefel y DU sy'n cynnwys dyraniad penodol i Gymru.

23. Gan fod stociau pysgod yn croesi ffiniau rhyngwladol a chychod o wahanol wledydd yn pysgota ein dyfroedd mae'r EMFF yn ariannu gweithgarwch gwyddonol a gorfodi wedi'i drefnu. Mae'r gwaith gwyddonol a gynhelir ar ran Cymru'n cael ei gydgysylltu gan Gyngor Rhyngwladol Archwilio Moroedd (ICES) sydd yna'n darparu cyngor ar gynaliadwyedd a lefelau pysgota'r stociau. Ar ôl gadael yr UE, mae rhwymedigaethau rhyngwladol yn ei gwneud hi'n ofynnol i bysgota ar lefelau cynaliadwy, yn seiliedig ar fecanweithiau gwyddonol y rhanbarth. Bydd angen i Gymru a'r DU barhau i gasglu tystiolaeth a chyflenwi ICES i gynnal asesiadau cynaliadwyedd. Bydd angen parhau i ddarparu elfen

wyddonol y gronfa i Gymru, ar ôl gadael yr UE ac i'r dyfodol, fel sail i'r gwaith hwn. Yn yr un modd, bydd trefniadau gorfodi morol yn parhau yn erbyn cychod, yn cynnwys gosod dyfeisiau pell ar fwrdd cychod ac ar gyfer casglu data. Efallai y bydd natur gorfodi ar y môr yn newid ond ni fydd yn llai beichus. Bydd elfen orfodi'r gronfa yn cael ei darparu i Gymru, ar ôl gadael ac i'r dyfodol, fel sail i'r gwaith hwn.

24. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyflwyno cais llwyddiannus o dan yr EMFF am arian i ddatblygu Cynllun Morol Cenedlaethol cyntaf Cymru. Mae hyn wrth gwrs yn cydnabod bod ein moroedd a'n gweithgarwch morol yn cael ei rannu. Bydd angen i Gymru barhau i weithio gydag Iwerddon, ac Awdurdodau Cynllunio Morol eraill y DU. Bydd Cymru angen y math hwn o gyllid o hyd i weithredu a mireinio cynlluniau morol, yn enwedig mewn perthynas â threfniadau ymchwil ar y cyd ag Iwerddon.

25. Yn y dyfodol agos mae yna bryderon y gallai gadael yr UE a'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin gael goblygiadau ar y cynllun EMFF cyfredol. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig wedi darparu rhywfaint o sicrwydd y bydd Llywodraeth y DU yn cyflawni unrhyw ymrwymiadau a wnaed erbyn 2020 ac unrhyw daliadau cysylltiedig a allai barhau nes 2023. Fodd bynnag, dyma farn DEFRA. Mae yna adrannau eraill o Lywodraeth y DU, yn cynnwys y Trysorlys, yn gysylltiedig â darparu'r EMFF ac mae'r rhain wedi bod yn dawel i raddau helaeth. Hefyd, nid yw DEFRA wedi egluro'r sefyllfa eto am gyllid gwyddoniaeth a gorfodi.

26. Mae swyddogion yn gweithio gyda chydweithwyr o weinyddiaethau eraill y DU i ystyried goblygiadau gadael y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin a byddant yn parhau i alw am eglurhad o'r gronfa gan Lywodraeth y DU.

27. Mae Llywodraeth Cymru a Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) yn gweithio gyda'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) i ofyn am eglurhad ar sut y bydd gwarant Llywodraeth y DU yn effeithio ar ddarparu'r cynllun cyfredol ac ar gwmpas y warant.

28. Yn ogystal, mae fy swyddogion yn gweithio ar Raglen Polisi Pysgodfeydd y Dyfodol. Mae hyn yn dibynnu llawer ar barhad cyllid Llywodraeth y DU i Gymru ar y lefelau a ddarperir gan yr Undeb Ewropeaidd ar hyn o bryd. O ystyried yr amser sydd gennym ar ôl i baratoi ar gyfer gadael yn drefnus, nid yw diffyg eglurder parhaus o gymorth o gwbl ar gyfer cynllunio blaenoriaethau'r dyfodol ac i'r diwydiant o ran ceisio sicrhau buddsoddiad.

29. Bydd angen i ni fynd i'r afael â'r meysydd nad ydynt wedi'u cwmpasu gan Warant Llywodraeth y DU hefyd fel cyllid Clefydau Anifeiliaid.

30. Fel mae Atodiad 1 yn egluro, derbynnir cyllid blynyddol gan yr UE ar gyfer gweithredu Cynlluniau Dileu TB cymeradwy y DU, ond mae cyllid yr UE yn cael ei gymeradwyo'n flynyddol ar gyfer y DU.

31. Mae cyllid yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn yn dibynnu ar nifer y gwartheg a brofwyd am TB a'r nifer sy'n cael eu lladd o dan Raglen Dileu TB yng Nghymru fel cyfran o'r cyfanswm yn Lloegr a Gogledd Iwerddon.

32. Bydd y ffaith fod cyllid yr UE yn dod i ben yn effeithio'n arbennig ar gyllidebau TB eraill, yn enwedig cyllideb iawndal TB. Rydym yn paratoi opsiynau a allai gynnig arbedion i'r gyllideb hon fel rhan o gynlluniau wrth gefn.

33. Rhaglen aml-flwyddyn 5 mlynedd yn y DU sy'n para tan 2018 yw Rhaglen Iawndal Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy yr UE. Bydd penderfyniadau ar sut y bydd y mesurau hyn yn cael eu hariannu ar ôl gadael yr UE yn cael eu hystyried fel rhan o drafodaethau ehangach ar weithredu ac ariannu ar ôl gadael yr UE.

34. Cartrefi Clyd Arbed 3 yw ein rhaglen dair blynedd (2018-20210) o fuddsoddiad seiliedig ar ardal mewn mesurau effeithlonrwydd ynni a thechnolegau ynni adnewyddadwy, i fynd i'r afael â thlodi tanwydd.

35. Bydd gan y rhaglen gyfredol gyfanswm cyllideb o £55 miliwn, gyda £24 miliwn ohono o gronfeydd strwythurol. Er bod cyllid Ewropeaidd o'r rhaglen gyfredol yn ymddangos yn sicr, mae rhaglen Arbed Cartrefi Clyd wedi dibynnu'n sylweddol ar gronfeydd strwythurol yn y gorffennol, gyda thlodi tanwydd yn broblem barhaus yng Nghymru. Amcangyfrifir bod dros 20% o gartrefi Cymru yn byw mewn tlodi tanwydd (lle mae angen dros 10% o incwm net i gynnal trefn wresogi foddhaol). Er bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud (ers 2011 buddsoddwyd dros £240 miliwn mewn Cartrefi Clyd (yn cynnwys Nyth ac Arbed, gan wella effeithlonrwydd ynni 45,000 o gartrefi), mae angen cynnal y cynnydd o leiaf ac mae'r hyn a fydd yn disodli cyllid Ewropeaidd yn debygol o fod yn hanfodol ar gyfer yr ystod o atebion.

36. Rydym wrthi'n ystyried pa fath o raglen olynol, os o gwbl, a allai fod yn angenrheidiol gan barhau i alw am gyllid ar sail anghenion i gymryd lle'r arian UE y byddem wedi'i ddisgwyl pe baem wedi aros yn yr UE, ond na fyddwn yn ei dderbyn mwyach ar ôl gadael.

***Rhaglenni Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd***

37. Fel mae papur Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid yn egluro, mae Cymru yn cymryd rhan mewn nifer o raglenni Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd hefyd.

38. Mae *Cynllun Gweithredu ar yr Economi* Llywodraeth Cymru'n amlinellu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i feithrin a chynnal partneriaethau Ewropeaidd mewn meysydd o ddiddordeb cyffredin.

39. Mae fy swyddogion wrthi'n gweithio ar nifer o brosiectau cydweithio a fydd yn ein cefnogi'n hymrwymiadau ehangach i ddatblygu diwydiant bwyd a diod Cymru, fel y nodwyd yn *Tuag at Dwf Cynaliadwy: y Cynllun Gweithredu ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod 2014-2020*. Mae Atodiad 1 yn nodi manylion y prosiectau hyn.

40. Yn gyffredinol, rydym yn awyddus i ddangos bod Cymru yn gwbl agored i fusnes. Mae datblygu a chynnal partneriaethau rhanbarthol UE o'r fath yn rhan hanfodol o'n strategaeth ar gyfer y dyfodol.

41. Bydd mentrau o'r fath i gryfhau cysylltiadau rhwng Cymru a rhanbarthau a phartneriaid yr UE yn helpu i gadarnhau cysylltiadau a gwneud diwydiant bwyd a diod Cymru yn fwy parod am Brexit.

42. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn bartner yn yr Economi Gylchol ar gyfer rhaglen Interreg busnesau bach a chanolig.

43. Mae'r cyllid Interreg hwn yn helpu Llywodraeth Cymru i ddatblygu a gweithredu polisïau er mwyn arloesi wrth arbed adnoddau mewn busnesau bach a chanolig yng Nghymru. Rydym yn un partner o gyfanswm o 10 o blith chwe rhanbarth yr UE. Y prif bartner yw Gogledd Denmarc. Mae'r cyllid yn gymharol fach ac yn talu am amser staff i ddatblygu Cynllun Gweithredu ac i fynychu cyfarfodydd prosiect ym mhob rhanbarth. Mae hyn wedi darparu llawer o wybodaeth ar gyfer rhannu arferion gorau wrth lunio polisïau a rhannu enghreifftiau o astudiaethau achos. Bydd y prosiect yn dod i ben ym Medi 2019.

***Cronfeydd a reolir gan y Comisiwn Ewropeaidd***

44. Rhaglen LIFE yr UE yw offeryn cyllido'r UE ar gyfer gwaith ar yr amgylchedd a'r hinsawdd. Amcan cyffredinol LIFE yw cyfrannu at weithredu, diweddaru a datblygu polisi a deddfwriaeth amgylcheddol a hinsawdd yr UE. Mae'r rhaglen LIFE gyfredol yn cwmpasu'r cyfnod 2014-2020. Mae Rhaglen LIFE yn cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy, Strategaeth Bioamrywiaeth 2014-2020, 7fed Rhaglen Gweithredu Amgylcheddol yr Undeb a strategaethau a chynlluniau amgylchedd a hinsawdd perthnasol eraill yr UE.

45. Mae elfen 'Amgylchedd' rhaglen LIFE yn cwmpasu tri maes blaenoriaeth: yr amgylchedd ac arbed adnoddau; natur a bioamrywiaeth; a llywodraethu a gwybodaeth amgylcheddol.

46. Mae Llywodraeth Cymru'n darparu'r cymorth ariannol (o dan ein Grant Cyfalaf Seilwaith Gwyrdd) ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri sydd â thri phrosiect sydd wedi llwyddo i dderbyn cyllid o dan raglen LIFE yr UE. Mae Atodiad 1 yn amlinellu'r tri phrosiect hyn.

47. Mae amserlen y prosiectau hyn yn amrywio, gyda'r cyntaf yn dod i ben yn Awst 2021, a'r ddau arall yn Rhagfyr 2022 a Gorffennaf 2026.

48. Mae hyn yn codi'r cwestiwn am gymorth parhaus yr UE i'r prosiectau hyn ar ôl Brexit. Fel mae pethau ar hyn o bryd, mae yna gytundeb rhwng Llywodraeth y DU a'r UE pan fydd y DU yn gadael yr UE, sy'n nodi y bydd y Comisiwn Ewropeaidd yn parhau i gyflawni ei ymrwymiadau ariannol o dan raglen LIFE. Os na fydd cytundeb o'r fath pan fydd y DU yn gadael yr UE bydd y prosiectau'n cael eu gwarantu'n ariannol gan Drysorlys EM, hyd yn oed pan fo prosiectau'n parhau ar ôl i'r DU adael yr UE. Mae hyn yn cynnwys unrhyw brosiectau ychwanegol y

gwneir cais amdanynt cyn i'r DU adael yr UE ond sy'n cael eu dyfarnu gan y Comisiwn ar ôl gadael.

49. Bydd y rhaglen LIFE newydd yn cychwyn ar 1 Ionawr 2021 ac yn cwmpasu 27 Aelod-Wladwriaeth. Er nad yw'r DU wedi'i chynnwys yn y 27 Aelod-Wladwriaeth ar gyfer y cynnig newydd, mae rhaglen LIFE yn parhau i fod yn agored i gael ei chysylltu â thrydydd gwledydd o fewn rhai paramedrau. Gall trydydd gwledydd gyfrannu yn unol â'r amodau a nodwyd mewn cytundeb penodol sy'n cwmpasu cydbwysedd teg mewn perthynas â'r manteision ac yn gofyn am gyfraniad ariannol.

50. Bydd gofyn i endidau cyfreithiol a sefydlwyd mewn trydydd gwlad digyswllt ysgwyddo cost eu cyfraniad. Gallai hyn gyfyngu ar gyfraniad trydydd gwledydd digyswllt (yn cynnwys sefydliadau yn y DU) y mae eu cyfraniad yn helpu i gyflawni amcanion yr Undeb.

51. Nid yw'n glir ar hyn o bryd a fydd unrhyw gyllid i ddisodli cyllid LIFE ar lefel y DU.

52. Cronfa arall a reolir gan y Comisiwn Ewropeaidd yw Rhaglen Cadw Gwenyn yr UE. Bydd Rhaglen Cadw Gwenyn cyfredol yr UE yn dod i ben yn 2019. Mae fy swyddogion wedi cael trafodaethau cychwynnol gyda swyddogion Defra am yr opsiynau ar gyfer disodli'r ffynhonnell gyllid hon ar gyfer y rhaglen Iechyd Gwenyn. Mae'n ddyddiau cynnar ar y trafodaethau a bydd fy swyddogion mewn sefyllfa i gynnig cyngor i mi maes o law.

53. Rydym hefyd yn derbyn ffrwd gyllido o raglen ELENA y Banc Buddsoddi Ewropeaidd ar gyfer Re-fit Cymru. Mae'r grant yn cwmpasu cyfnod o 3 blynedd yn dechrau yn Ionawr 2016 (gan orffen yn Rhagfyr 2018).

54. Rydym yn dechrau gweld elw da ar fuddsoddiad cynharach ac yn adolygu'r potensial i adeiladu ar y llwyddiant hwn drwy ymestyn neu ddisodli gyda chontract newydd. Rydym wrthi'n ystyried ffynonellau cyllid eraill yn cynnwys defnyddio refeniw wedi'i hunan-gynhyrchu: gall Re-fit godi £10,000 ar gleientiaid am bob prosiect llwyddiannus ar hyn o bryd.

55. Rydym yng ngham cynnar ein hadolygiad o'r contract ac o weld i ba raddau y gellir ymestyn wedi Rhagfyr 2018.

56. Mae fy mhortffolio hefyd wedi cymryd diddordeb mawr yn nyfodol rhaglen Horizon 2020. Mae'n ymddangos bod Llywodraeth y DU yn cytuno y dylai mynediad parhaus i olynydd Horizon 2020 (Horizon Europe, a chyda chynnydd sylweddol arfaethedig mewn cyllid) fod yn flaenoriaeth a byddwn yn gweithio gyda nhw i geisio dylanwadu ar ddatblygu trefniadau olynol a thelerau mynediad Llywodraeth y DU. Er enghraifft, fe wnaethom ni gyflwyno a chyhoeddi papur safbwynt i ymateb i ymgynghoriad yr UE ar ddyfodol Horizon 2020 ym mis Mawrth eleni.

***Buddsoddiad Rhanbarthol: gweinyddiaeth y dyfodol***

57. Fel mae papur Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid yn ei nodi rydym wedi amlinellu'n cynigion cychwynnol ar gyfer disodli cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd yn ein papur polisi *Buddsoddiad Rhanbarthol yng Nghymru ar ôl Brexit.*

58. Yn dilyn hyn cynhaliwyd nifer o weithgareddau ymgysylltu yn cynnwys digwyddiad yn y Gogledd y bues i ynddo, a digwyddiad yn y De a fynychwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid.

59. Nid ydym yn ceisio ailadrodd rhaglenni'r UE yng Nghymru ac mae'r rhan fwyaf o'r cyfleoedd a nodwyd gennym am wneud pethau'n wahanol.

60. Rwy'n gweithio'n agos gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a chydweithwyr ledled y Cabinet i sicrhau bod trefniadau olynol yn ymblethu gyda'i gilydd a gyda pholisi ehangach Llywodraeth Cymru.

***Crynodeb***

61. Fel y datganwyd yn gynt, rwy'n parhau i geisio cael cytundeb gyda Llywodraeth y DU ar drefniadau cyllido'r dyfodol. Mae angen i bedair gwlad y DU gytuno ar fframwaith cyllido newydd ac rwy'n awyddus i sicrhau bod gennym drefniadau cydweithio effeithiol rhwng llywodraethau i ystyried cynigion ar y cyd.

62. Mae angen trafodaeth bellach i gadarnhau union lefel y cyllid a fyddai ar gael i Gymru a'r fformiwlâu cyllido i'w mabwysiadu, y mecanwaith ar gyfer mesurau cefnogi'r farchnad a'r hyn a fydd yn disodli mathau eraill o gyllid.

63. Byddwn yn cymryd cam sylweddol wrth amlinellu rhai o'n paratoadau ar gyfer disodli cyllid yr UE ar gyfer Cymru drwy'n hymgynghoriad fis nesaf (Gorffennaf) ar gynigion ar gymorth rheoli tir y dyfodol.

**Lesley Griffiths AC**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig**
**Mehefin 2018**

**Prif feysydd cyllid yr UE sy'n gysylltiedig â'r portffolio Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig a'r lefelau cyllid cysylltiedig.**

## 1. Y Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC)

### Colofn 1 – Taliadau Uniongyrchol

Colofn 1 – Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr y Polisi Amaethyddol Cyffredin yw'r olynydd i Gynllun y Taliad Sengl a bydd yn para o 2015 – 2020. Mae'r fframwaith cyllido'n darparu incwm uniongyrchol i gefnogi ffermwyr i reoli eu tir mewn modd cynaliadwy sy'n ystyriol o'r amgylchedd, yn ogystal â chynnal safonau lles anifeiliaid gan wella cadernid hirdymor ffermydd.

Mae'r Taliadau Uniongyrchol, sy'n **100% arian Ewropeaidd** o Gronfa Cyfarwyddo a Gwarantu Amaethyddiaeth Ewrop yn darparu cymhorthdal incwm i fusnesau amaethyddol. **Cyfanswm y gyllideb ar gyfer 2014-2020 yw £1676 miliwn.**

Trosglwyddwyd 15% o Golofn 1 i Golofn 2 (Rhaglen Datblygu Gwledig). Dyma'r uchafswm a ganiateir o dan Reoliadau Ewropeaidd. Mae hyn yn gyfwerth â £252 miliwn (ar gyfradd gyfnewid gynllunio cyfredol y Rhaglen Datblygu Gwledig sef €1 = £0.85) ac fe'i trosglwyddwyd yn ystod cyfnod y rhaglen (2014-20).

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm cyllid yr UE** | £1676 miliwn |
| **Cyfartaledd Blynyddol** | £240 miliwn |

## 2. Rhaglen Datblygu Gwledig

Mabwysiadodd y Comisiwn Ewropeaidd Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020 ar 26 Mai 2015. Mae'r rhaglen yn werth £827.8 miliwn dros y 7 mlynedd (ar y gyfradd gyfnewid gynllunio gyfredol), y mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru gyfrannu tua £276 miliwn ohono gyda'r £551 miliwn arall yn dod o'r UE (€651.6 miliwn, yn sefydlog yn ystod MAFF). Mae faint o gyd-ariannu sydd ei angen yn dibynnu ar y gyfradd gyfnewid ar adeg yr hawliadau, a'r gyfradd gyd-ariannu sy'n gysylltiedig â gwariant. Y gyfradd gyd-ariannu gyfredol yw 53% i'r UE a 47% i Lywodraeth Cymru, sef yr uchafswm a ganiateir o dan reoliadau.

Mae dyraniadau'r UE yn para o 01/01/14 i 31/12/20. Mae rheolau N+3 yn golygu bod rhaid gwario dyraniad yr UE o Flwyddyn N erbyn diwedd y flwyddyn honno a 3 blynedd, felly N+3.

Bydd y rhaglen yn cefnogi ystod eang o weithgareddau sy'n cyd-fynd ag un neu fwy o'r amcanion Datblygu Gwledig Ewropeaidd:

Mae cymorth technegol hefyd wedi'i gynnwys drwy'r rhaglen gyllido, gan gefnogi gwaith fel rheoli, monitro, gwerthuso, gwybodaeth a chyfathrebu a rhwydweithio, datrys cwynion, a rheoli ac archwilio.

Defnyddir cymorth technegol hefyd i gefnogi gwaith i leihau'r baich gweinyddol ar fuddiolwyr a chamau i atgyfnerthu gallu i weinyddu'r rhaglen.

Mae'r **trosglwyddiad Colofn 1 uchaf o 15% i'r Rhaglen Datblygu Gwledig yn gyfwerth â £252 miliwn** (mae'r ffigur hwn hefyd yn cynnwys **ychydig o fodiwleiddio** o'r cyfnod rhaglen blaenorol). Nid yw'r elfen hon o'r Rhaglen Datblygu Gwledig yn cael ei chyd-ariannu. Elfen amrywiol allweddol o fewn cyllid y PAC yw'r gyfradd gyfnewid sy'n seiliedig ar gyfradd gynllunio o €1=£0.85.

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm cyllid yr UE** | £551.6 miliwn |
| **Cyfartaledd Blynyddol** | £78.8 miliwn |

### 3. Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop (EMFF)

Bwriad y Gronfa hon yw addasu'r sector pysgodfeydd i ofynion y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin sy'n cynnwys rhwymedigaethau statudol, fel y rhwymedigaethau glanio, gorfodi a chasglu data. Mae'r fframwaith cyllido hefyd yn gyfrwng ar gyfer cyflawni nodau Cynllun Gweithredu Strategol Morol Cymru.

Mae'r gronfa'n canolbwyntio ar:

- helpu pysgotwyr i newid i bysgota cynaliadwy;
- cefnogi cymunedau arfordirol i arallgyfeirio eu heconomïau;
- cyllido prosiectau sy'n creu swyddi newydd a gwella safon byw ar hyd arfordiroedd Ewrop;
- ei gwneud hi'n haws i ymgeiswyr gael gafael ar gyllid.

| Cyd-ariannu EMFF % | Disgrifiad | Cyfanswm yr UE | Cyfanswm Cyd-ariannu | Cyfanswm Rhaglen |
|---|---|---|---|---|
| 75%/25% (uchaf) | Craidd | £10,219,815 | £3,406,605 | £13,626,420 |
| 90%/10% | Gorfodi | £2,112,752 | £234,750 | £2,347,502 |
| 80%/20% | Casglu Data | £1,528,926 | £382,231 | £1,911,158 |
| **Cyfanswm Gofyniad** | | **£13,861,494** | **£4,023,587** | **£17,885,081** |

Mae dyraniad cyfredol EMMF tua £18 miliwn, ar gyfer 2014-20. Caiff EMFF ei rheoli mewn ffordd debyg i'r Rhaglen Datblygu Gwledig (cyd-ariannu), ond Rhaglen y DU yw hon a gall dyraniad yr UE amrywio.

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm cyllid yr UE** | £13.9 miliwn |

| | |
|---|---|
| **Cyfartaledd Blynyddol** | £1.9 miliwn |

**4. Menter Ymchwil Busnesau Bach**

Nod y Fenter yw datblygu a marchnata bwyd a diod cysylltiedig ag iechyd yng Nghymru. Nodwyd hyn drwy'r Cynllun Gweithredu Bwyd a Diod, y gallai ymyrraeth strategol yn y sector helpu bwyta'n iach yng Nghymru. Mae'r dulliau llywodraethu a nodwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 – Egwyddor Datblygu Cynaliadwy yn greiddiol i ddatblygu'r Fenter:

- Meddwl am yr hirdymor;
- Mabwysiadu dull integredig;
- Cydweithio ag eraill;
- Cynnwys pobl a chymunedau sydd wedi'u heffeithio gan eu penderfyniadau;
- Canolbwyntio ar gymryd mesurau ataliol.

Mae cyfanswm cyllid y Fenter yn gyfwerth â £1 miliwn am gyfnod o 3 blwyddyn ariannol gan ddechrau yn 2016/17, y mae Llywodraeth Cymru yn cyd-ariannu £600,000 ohono gyda'r £400,000 arall yn cael ei ariannu drwy gyllid yr UE.

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm cyllid yr UE** | £400,000 |
| **Cyfartaledd Blynyddol** | £133,000 |

**5. Cyllid LIFE**

Mae Llywodraeth Cymru'n darparu cymorth ariannol i'r prosiectau canlynol sydd wedi derbyn cyllid LIFE:

a) Adfywio Cyforgorsydd Cymru (Cyfoeth Naturiol Cymru). Mae cyllid y prosiect yn gyfanswm o £4.239 miliwn dros gyfnod o 3 blwyddyn ariannol (Medi 2017 – Awst 2021); y mae Llywodraeth Cymru'n darparu cymorth o £1.060 miliwn ar ei gyfer gyda'r gweddill wedi'i ariannu drwy LIFE (£3.18 miliwn).

b) Twyni Symudol (Cyfoeth Naturiol Cymru). Mae cyllid y prosiect yn gyfanswm o £4.067 miliwn am gyfnod o 3 blwyddyn ariannol (Gorffennaf 2017 – Rhagfyr 2020); y mae Llywodraeth Cymru'n darparu cymorth o £1.016m ar ei gyfer gyda'r gweddill wedi'i ariannu drwy LIFE (£3.050 miliwn).

c) Fforestydd glaw Celtaidd LIFE (Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri). Mae cyllid y prosiect yn gyfanswm o £7.66 miliwn am gyfnod o 7 blwyddyn ariannol (Medi 2018-Gorffennaf 2026), y mae Llywodraeth Cymru'n darparu cymorth o £2.00 miliwn ohono, gyda'r gweddill wedi'i ariannu drwy randdeiliaid eraill (£1.07 miliwn) a LIFE (£4.59 miliwn).

*

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm cyllid yr UE** | £10.82 miliwn |
| **Cyfartaledd Blynyddol** | 2.74 miliwn D/B |

**6. Re-fit Cymru**

Daw'r ffrwd gyllido hon o raglen ELENA Banc Buddsoddi Ewrop ac fe'i sicrhawyd yn Rhagfyr 2015. Mae'r grant yn cwmpasu cyfnod o 3 blynedd gan ddechrau yn Ionawr 2016 (a gorffen yn Rhagfyr 2018).

Mae'r rhaglen yn darparu cymorth proffesiynol i sefydliadau'r sector cyhoeddus i weithredu prosiectau effeithlonrwydd ynni mawr a chymhleth. Mae'r gwasanaeth yn galluogi mynediad i Gontractau Perfformiad Ynni, lle mae cyrff cyhoeddus yn sicrhau arbedion ynni gwarantedig ac yn rhyddhau arian i wasanaethau rheng flaen.

Mae 90% o wasanaeth Re-fit Cymru'n cael ei gymorthdalu drwy Lywodraeth Cymru yn sicrhau grant o £1.5 miliwn o raglen ELENA Ynni Deallus Ewrop y Comisiwn Ewropeaidd a weinyddir drwy Fanc Buddsoddi Ewrop.

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm cyllid yr UE** | £1.5 miliwn |
| **Cyfartaledd Blynyddol** | £500,000 |

**7. Economi Gylchol ar gyfer Busnesau Bach a Chanolig – Interreg**

Dechreuodd y prosiect hwn ym Mai 2016 ac mae wedi'i ariannu am 4 blynedd. Mae'r Economi Gylchol yn un o gysyniadau allweddol o'r Economi Werdd ac yn gam sylfaenol ar gyfer hyrwyddo Twf Gwyrdd ledled yr UE. Mae'n seiliedig ar gael y gorau o systemau nid elfennau, symud i ffwrdd o adnoddau ar gyfer gwastraff i systemau cylchol cadarn a chynhyrchiol.

Drwy gyfnewid profiadau, ledled yr UE, ar offerynnau polisi perthnasol, pecynnau cymorth i helpu BBaChau i ymuno â'r economi gylchol, nodi arferion gorau, amcangyfrif manteision economaidd a chymdeithasol cadwyni gwerth cylchol, yn ogystal â chynhyrchu canllaw gwyn, bydd BBaChau yn cael cyflwyniad cam wrth gam i'r economi gylchol.

Canolfan Datblygu Busnes Gogledd Denmarc, y prif bartner, a ddechreuodd y prosiect, ynghyd â Rhanbarth Gogledd Denmarc. Mae partneriaeth y prosiect yn cynnwys 10 partner o Ddenmarc, yr Eidal, y Ffindir, Bwlgaria, Gwlad Groeg a'r DU.

Mae cyfanswm cost y prosiect yn gyfwerth â €1.73m a gaiff ei gyd-ariannu gan Raglen Interreg Ewrop. Mae cyfran Llywodraeth Cymru'n gyfwerth â €150,000 gyda'r cyllid Interreg yn darparu 85% (€127,000) a chyfraniad Llywodraeth Cymru o 15% (€22.5,000) ar gyfer amser staff yn bennaf.

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm cyllid yr UE** | £108,000 |
| **Cyfartaledd Blynyddol** | £27.3,000 |

* *Cyfradd gyfnewid £0.85:€*

## 8. Cydweithio Ewropeaidd yn y sector bwyd a diod

Mae swyddogion yn gweithio ar nifer o brosiectau cydweithio a fydd yn cefnogi'n hymrwymiadau ehangach i sicrhau twf diwydiant bwyd a diod Cymru, fel y nodwyd yn *Tuag at Dwf Cynaliadwy: y Cynllun Gweithredu ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod 2014-2020.* Mae'r prosiectau'n cynnwys:

- Menter ar y cyd i helpu BBaChau y sector bwyd yn rhanbarthau Ardal yr Iwerydd i ddatblygu strategaethau arloesol a gwella eu gallu i gystadlu mewn marchnadoedd rhyngwladol. Mae **Prosiect Allforio Bwyd Ardal yr Iwerydd**, a ariennir drwy Raglen Ardal yr Iwerydd Interreg a'i chyd-ariannu gan Lywodraeth Cymru, yn annog cydweithredu rhwng busnesau yn rhanbarthau partner Ardal yr Iwerydd i oresgyn rhwystrau y mae BBaChau y sector bwyd yn eu hwynebu wrth geisio masnachu'n rhyngwladol. Mae'r partneriaid yn cynnwys y Dordogne (Ffrainc), Asturias (Sbaen), Andalucia (Sbaen), Norte (Portiwgal), Corc (Iwerddon), Gogledd Iwerddon a Chymru. Nod cyffredinol y prosiect, sydd i'w gynnal tan ddiwedd 2019, yw gwella gallu'r BBaChau i gystadlu a chynyddu eu hallforion. Ar gyfer prosiect Ardal yr Iwerydd Interreg, o dan Warant Trysorlys y DU mae gennym sicrwydd na fydd Brexit yn effeithio ar y prosiect ac y bydd partneriaid o Gymru'n parhau i elwa ar fod yn rhan ohono nes iddo ddod i ben.

- Mae Llywodraeth Cymru wedi ymuno â Rhwydwaith Ewropeaidd newydd o'r Rhanbarthau a Bwyd Gourmet (**Rhwydwaith REGAL**) sy'n canolbwyntio ar ddatblygu diwylliant bwyd, cefnogi entrepreneuriaeth ac arloesedd, datblygu cadwyni cyflenwi lleol a datblygu twristiaeth bwyd. Mae'n cynnwys ffocws sylweddol ar wella a chryfhau'r gydnabyddiaeth i gynhyrchion o safon drwy ddynodiadau gwarchodedig a brandiau ansawdd, gan gyfeirio'n benodol at Enwau Bwyd Gwarchodedig. Mae aelodaeth y Rhwydwaith yn cynnwys Lombardy (yr Eidal), Liguria (yr Eidal), Gwlad y Basg (Sbaen), Navarra (Sbaen) a Chymru. Mae'r Rhwydwaith wrthi'n dod yn endid cyfreithiol ffurfiol nid er elw. Pan fydd hyn wedi digwydd, disgwylir y bydd yr aelodau'n awyddus

i ddatblygu cyfleoedd am ddysgu ar y cyd a galluogi cydweithio yn y dyfodol ar brosiectau o ddiddordeb cyffredin.

- Fel rhan annatod o raglen fframwaith Horizon 2020 yr UE ar gyfer ymchwil ac arloesedd mae'r Sefydliad Arloesedd a Thechnoleg Ewropeaidd yn dod â busnesau (diwydiant a BBaChau) a'r byd academaidd ynghyd i ffurfio partneriaethau trawsffiniol deinamig. Fel rhan o hyn, mae '**EIT Food**' yn gonsortiwm o 50 partner o 13 gwlad sy'n ceisio hybu sgiliau ac ysbryd entrepreneuraidd yn y sector a datgloi potensial busnesau bach a chanolig (BBaChau), a fydd yn ei dro yn cyflymu arloesedd, yn creu swyddi, yn dod â manteision i fusnesau ac yn gwella gallu Ewrop i gystadlu. Yn 2017, daeth Llywodraeth Cymru'n Aelod Cyswllt o EIT Food (statws sy'n galluogi Llywodraeth Cymru i gydweithio gydag EIT Food ar weithgareddau ar y cyd a chyfnewid gwybodaeth). Mae swyddogion yn cynnal trafodaethau pellach gydag EIT Food i ystyried sut gallai Llywodraeth Cymru (neu randdeiliaid eraill o Gymru) barhau i gymryd rhan a chael rôl weithredu mewn datblygiadau yn y prosiect hwn yn y dyfodol.

- Yn y gorffennol mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu dull cyfathrebu, dysgu a chynllunio busnes arloesol sy'n seiliedig ar glystyrau gyda diwydiant. Drwy hyn, sefydlwyd chwe '**Clwstwr'** Bwyd a Diod sy'n cynnwys dros 500 o fusnesau yn y rhwydweithiau hyn i gyd yn cydweithio i ddatblygu cyfleoedd newydd a phrosiectau cydweithio er budd y sector yng Nghymru. Nawr bod Clystyrau Cymru wedi hen sefydlu rydym yn edrych ymhellach i feithrin cysylltiadau, rhannu arferion gorau ac archwilio partneriaethau newydd posibl gyda Chlystyrau bwyd rhanbarthol eraill yr UE. Fel rhan o hyn ymwelais â Chatalonia a Gwlad y Basg ddechrau Mehefin 2018, gyda dirprwyaeth gynrychioliadol o'n Clystyrau o Gymru.

## 9. Cynllun Effeithlonrwydd Ynni yr UE sy'n seiliedig ar ardal (Arbed 3)

Rhaglen tair blynedd (2017-2020) o fuddsoddiad seiliedig ar ardal mewn mesurau effeithlonrwydd ynni a thechnolegau ynni adnewyddadwy, a ddaw i ben yn 2020 yw Arbed. Bydd y rhaglen yn targedu'r ardaloedd o Gymru lle mae teuluoedd yn fwyaf tebygol o fod yn byw mewn tlodi tanwydd difrifol. Bydd y prosiect yn sicrhau manteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol drwy fynd i'r afael â thlodi tanwydd difrifol, gan greu cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant a lleihau ôl-troed carbon stoc tai cyfredol Cymru.

Cynlluniwyd Rhaglen Arbed 3 i sicrhau buddsoddiad o £35 miliwn dros 3 blynedd, y bydd Llywodraeth Cymru'n ariannu £12.06 miliwn ohono gyda'r gweddill o £22.4 miliwn yn dod o Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop. O dan reolau'r UE, ni all yr holl gynllun fod yn uwch na throthwy prosiectau mawr sef €50 miliwn (£38 miliwn).

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm cyllid yr UE** | £22.94 miliwn |

| Cyfartaledd Cyllid | £7.6 miliwn |
|---|---|

## 10. Cyllid TB yr UE

Mae cyllid TB yr UE yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn yn dibynnu ar nifer y gwartheg sy'n cael eu profi am TB a'u lladd oherwydd TB o dan Raglen Dileu TB yng Nghymru fel cyfran o gyfansymiau cyfwerth yn Lloegr a Gogledd Iwerddon. Yn gyffredinol, mae Llywodraeth Cymru'n derbyn rhwng £2-4 miliwn y flwyddyn ond mae lefel y cyllid yn dibynnu ar amrywiaeth o ffactorau yn cynnwys y toriad a wnaed gan Drysorlys y DU a chosb ariannol yn dilyn archwilio. Gellir cyflwyno cosb ariannol am ddiffyg cywirdeb/camgyfrifiadau yn y data sy'n golygu bod gorhawliad wedi digwydd. Hefyd, cyflwynwyd cosbau ariannol yn y Gorffennaf yn dilyn craffu ar ffigurau iawndal TB Cymru wrth eu cymharu â rhai Defra ac yn dilyn hyn, addaswyd ffigur Cymru ar i lawr. Mae cyllid yr UE yn cael ei hawlio a'i dderbyn gan edrych am yn ôl, yn dilyn gwerthuso hawliadau a gyflwynir ddwywaith y flwyddyn.

Er bod polisi TB yn cael ei gyfeirio gan fframwaith deddfwriaethol yr UE mae'n bwysig nodi bod yna ddeddfwriaeth ddomestig ar waith sydd hefyd yn llywodraethu polisïau TB yng Nghymru yn ogystal â Rhaglen Dileu TB gynhwysfawr. Felly, ar ôl gadael yr UE byddai'r Rhaglen Dileu TB yn parhau.

| Cyfanswm cyllid yr UE | £3 miliwn |
|---|---|
| Cyfartaledd Blynyddol | £3 miliwn* |

*yn seiliedig ar flynyddoedd blaenorol'

## 11. Iawndal Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (TSE)

Sefydlodd Rheoliad (UE) rhif 652/2014 Fframwaith Ariannol Cyffredin ar gyfer rheoli gwariant sy'n gysylltiedig â'r gadwyn fwyd, iechyd anifeiliaid a lles anifeiliaid, iechyd planhigion a mesurau rheoli swyddogol. Mae'n galluogi Aelod-wladwriaethau i gael gafael ar gyllid grant i gyd-ariannu nifer o fesurau, yn cynnwys mesurau argyfwng, rhaglenni dileu a rheoli a mesurau rheoli swyddogol fel Labordai Cyfeirnod yr UE (EUR-L).

Mae'r Fframwaith Ariannol Cyffredin yn cynnwys gwariant blynyddol cyfartalog o EUR 270.3 miliwn, gyda throthwy uchaf ar gyfer gwariant o EUR 1,891,936,000 dros y cyfnod 7 mlynedd, 2014-2020. Caiff y gyllideb ei dyrannu yn unol â blaenoriaethau y cytunwyd arnynt gydag Aelod-wladwriaethau'r UE mewn rhaglenni gwaith blynyddol neu aml-flwyddyn.

Clefydau niwroddirywiol angheuol yw Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy sy'n achosi dirywiad sbyngffurf yn yr ymennydd, gan arwain at farwolaeth yn y pen draw. Maent yn glefydau milheintiol a allai ddigwydd mewn anifeiliaid a phobl, ond yn ôl diffiniad mae'n glefyd a allai gael ei drosglwyddo rhwng anifeiliaid ac ar draws

rhywogaethau, yn cynnwys o anifeiliaid i bobl. Mae'r rhain yn cynnwys Enseffalopathi Sbyngffurf Buchol; Clefyd y Crafu; a Nychdod Cronig.

Rhaglen aml-flwyddyn 5 mlynedd yn y DU yw Iawndal TSE yr UE sy'n para tan 2018, ac yn canolbwyntio ar fesurau goruchwylio gweithredol, dileu BSE a Chlefyd y Crafu (sy'n cynnwys rhaglenni iawndal a genotepio). Mae'r Comisiwn yn cymeradwyo'r rhaglen ar gyfer symiau penodol o gyllid fesul blwyddyn. Mae'r swm cyd-ariannu amcangyfrifedig tua €950,000 ar gyfer gweinyddiaethau'r DU yn 2017/18 ac mae cyfran Llywodraeth Cymru tua 13.32% neu €126,540 (£109,000).

Ar sail amcanestyniadau DEFRA ar gyfer blaenraglen yr UE ar gyfer blwyddyn galendr 2017, amcangyfrifir gwariant yr UE fel €1,944,196.86. Ar sail y gyfradd gyfrannu, amcangyfrifir bod cyfraniad Llywodraeth Cymru yn €258,967 (*£222k). Costau ar sail galw yw'r rhain, felly gall gwariant Llywodraeth Cymru fod yn uwch neu'n is yn dibynnu a oes yna ofyniad ar gyfer unrhyw iawndal neu gostau genoteipio (costau a ariennir gan y wlad lle cafodd yr anifail ei nodi).

Gan fod yr epidemig BSE yn parhau i leihau ledled y byd disgwylir i'r symiau cyd-ariannu ar gyfer rheoli a dileu Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy ostwng flwyddyn ar ôl blwyddyn ac i ddod i ben yn 2021 (nid oes gan yr UE gynlluniau goruchwylio'r clefydau hyn ar ôl y dyddiad hwn. O ganlyniad, mae angen ystyried gallu cyllido ar ôl 2021.

Mae penderfyniadau ar sut y bydd y mesurau hyn yn cael eu hariannu ar ôl i'r DU adael yr UE yn cael eu hystyried fel rhan o drafodaethau ehangach ar allu gweithredu a chyllid ar ôl gadael yr UE.

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm Cyllid yr UE** | £222,000 |
| **Cyfartaledd Blynyddol** | £222,000 |

* *Cyfradd gyfnewid £0.86:€ (fel ar 13/11/16)*

**Iawndal TSE**

Mae Adran 32 o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru ganiatáu lladd anifeiliaid at ddibenion rheoli clefydau ac yn rhoi dyletswydd arnynt i dalu iawndal mewn perthynas â'r anifeiliaid hyn.

Gall Gweinidogion Cymru adennill costau iawndal a delir i berchnogion gan yr UE. Gall perchnogion anifeiliaid sy'n cael eu lladd neu eu difa, a pherchnogion cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid sy'n cael eu difa, dderbyn iawndal pan fyddant yn bodloni rhai amodau o dan Reoliad (UE) rhif 652/2014. Mae iawndal wedi'i gyfyngu i werth anifeiliaid ar y farchnad pe na fyddent wedi'u heffeithio gan y clefyd ac i werth y cynhyrchion yn union cyn yr amheuwyd bod yna glefyd neu fod clefyd wedi'i gadarnhau. Ni ellir rhoi iawndal am werth cynhyrchu'r anifail.

Mae Llywodraeth Cymru'n gwneud taliadau iawndal am anifeiliaid a laddwyd at ddibenion rheoli TSE. Mae'r taliadau a wnaed gan Lywodraeth Cymru ers 2013 yn cynnwys:

| | Iawndal BSE | Iawndal Clefyd y Crafu | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 2013 | £13,240 | £309,900 | £323,140 |
| 2014 | - | - | - |
| 2015 | £727 | - | £727 |
| 2016 | £47,392 | - | £47,392 |

Fel rhan o raglen cyd-ariannu ehangach TSE yr UE, mae Llywodraeth Cymru'n derbyn cymorth cyd-ariannu gan yr UE ar gyfer taliadau iawndal TSE. Fel rhan o'r rhaglen gyd-ariannu ehangach ar gyfer mesurau rheoli TSE, dim ond nes 2021 y mae'r DU wedi clustnodi incwm. Nid ydym yn gwybod eto beth yw manylion rhaglen reoli TSE yr UE yn cynnwys manylion cyllido ar ôl y pwynt hwn.

Mae penderfyniadau ar sut y bydd y mesurau hyn yn cael eu hariannu ar ôl i'r DU adael yr UE yn cael eu hystyried fel rhan o drafodaethau ehangach ar allu gweithredu a chyllid ar ôl gadael yr UE.

## 12. Rhaglen Iechyd Gwenyn

Sefydlwyd y Rhaglen Iechyd Gwenyn i gefnogi amcanion y Cynllun Gwenyn Iach sy'n ceisio sicrhau poblogaeth gynaliadwy ac iach o wenyn mêl ar gyfer peillio a chynhyrchu mêl yn y DU. Mae'n annog rhanddeiliaid i gydweithio i ymateb yn effeithiol i fygythiadau plâu a chlefydau ac i gynnal gwenyn mêl a'r arfer o gadw gwenyn ar gyfer y dyfodol.

Mae'r Rhaglen Iechyd Gwenyn yn cael ei hariannu gan yr Uned Gwenyn Genedlaethol bob blwyddyn, **arian sy'n gyfwerth â £440,000.** O'r swm hwn, gellir adennill £76,000 gan yr UE fel rhan o Raglen Cadw Gwenyn yr UE. Bydd Rhaglen Cadw Gwenyn gyfredol yr UE yn dod i ben yn 2019. Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt gyda DEFRA ar ddyfodol y Rhaglen a chyllid disodli.

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm cyllid yr UE** | £76,000 |
| **Cyfartaledd Blynyddol** | £76,000 |

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Pwyllgor Cyllid – 27 Mehefin 2018**

**PARATOADAU AR GYFER DISODLI CYLLID YR UE YNG NGHYMRU**

**Cyflwyniad**

1. Mae'r papur hwn yn rhoi trosolwg o sefyllfa Llywodraeth Cymru a'r paratoadau cynnar i ddisodli cyllid yr UE yng Nghymru ar ôl Brexit. Mae ymchwiliad y Pwyllgor yn amserol, wrth i ni barhau i ddatblygu a chyhoeddi syniadau a chynigion ar sut y gallai cyllid amgen gael ei fuddsoddi yng Nghymru gyda'r sector preifat, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector yng Nghymru. Dyma'r amser i ystyried ein hopsiynau gyda rhanddeiliaid yng Nghymru er gwaetha'r cryn ansicrwydd ynghylch cyd-destun ariannol a deddfwriaethol unrhyw drefniadau cyllido yn y dyfodol.

2. Roedd *Diogelu Dyfodol Cymru* (Ionawr 2017) yn nodi'r £680 miliwn y flwyddyn o gyllid yr UE sy'n dod i Gymru. Mae'n cynnwys:

   - Dros £370 miliwn y flwyddyn ar gyfer cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd, yn cynnwys:

     - £295 miliwn y flwyddyn o Gronfeydd Strwythurol (Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewropeaidd a Chronfa Gymdeithasol Ewrop)
     - £80 miliwn y flwyddyn ar gyfer Cynllun Datblygu Gwledig (Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig)[1]
     - £2 miliwn y flwyddyn o'r gronfa pysgodfeydd (Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop)

   - £274 miliwn y flwyddyn mewn cymorthdaliadau uniongyrchol o dan y PAC (taliadau Colofn 1)[2]
   - £7.3 miliwn y flwyddyn o raglenni Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd, yn cynnwys y rhaglen Cymru-Iwerddon

   - £23 miliwn y flwyddyn o raglenni cystadleuol yr UE sy'n cael eu rheoli'n ganolog:

     - £18 miliwn y flwyddyn o Horizon 2020 ar gyfer ymchwil a datblygu
     - £4 miliwn y flwyddyn o Erasmus
     - £1 miliwn y flwyddyn o gronfeydd eraill, fel Ewrop Greadigol a LIFE

3. Ers hynny rydym ni wedi cyhoeddi cyfres o bapurau polisi Brexit cysylltiedig, yn cynnwys *Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru ar ôl Brexit* (Rhagfyr 2017), a oedd yn canolbwyntio ar drefniadau olyniaeth ar gyfer cronfeydd strwythurol a

[1] Mae'r Rhaglen Datblygu Gwledig (neu Colofn 2) yn rhan o'r gyfres o gronfeydd PAC hefyd. Mae'n cynnwys cymysgedd o fuddsoddiadau amaeth-amgylcheddol (48%), economaidd-gymdeithasol (49%) a gweithgarwch arall (3%).

[2] Noder: Bydd rhannau o'r Rhaglen Datblygu Gwledig gyfredol yn cael eu cynnwys yn y trefniadau olyniaeth ar gyfer cyllid PAC yng Nghymru

buddsoddi Ewropeaidd[3]. Bydd papur polisi Brexit a fydd yn cael ei gyhoeddi cyn hir, *Brexit and our Land,* yn canolbwyntio ar y ffynhonnell bwysig arall o gronfeydd yr UE sy'n cael eu rheoli yng Nghymru o dan y PAC.

4. Rwy'n gweithio gyda chydweithwyr ar draws y Cabinet i sicrhau bod trefniadau olyniaeth yn asio gyda'i gilydd a gyda pholisi ehangach Llywodraeth Cymru, gyda chynlluniau i gyhoeddi papur pellach ar gyllid a threfniadau cyllido ar ôl Brexit, gan adeiladu ar y sefyllfaoedd a nodir yn Sicrhau Dyfodol Cymru, yn ddiweddarach eleni.

**Disodli ffrydiau cyllido'r UE yng Nghymru**

***Cronfeydd yr UE a reolir yn ddomestig***

5. Rydym ni wedi mynd ati'n gyson i nodi'n blaenoriaethau ar gyfer disodli cyllid yr UE yng Nghymru, gan bwysleisio'r angen i ddisodli cyllid yn llawn er mwyn gwireddu addewidion a wnaed wrth ymgyrchu at y refferendwm. Cafwyd datganiad i'r perwyl hwn gan y Prif Weinidog yn syth ar ôl canlyniad y refferendwm ac rydym wedi ailadrodd hyn ar lefel Gweinidogion a Swyddogion yn ein trafodaethau â llywodraeth y DU.

6. Rydym yn bendant na ddylai gadael yr UE olygu unrhyw ostyngiad yn y cyllid sydd ar gael i Gymru. Byddai unrhyw ostyngiad yn peryglu ein gallu i gefnogi'r gweithgareddau rydym yn eu hariannu ar hyn o bryd drwy raglenni'r UE, yn cynnwys y Cronfeydd Strwythurol, y Rhaglen Datblygu Gwledig, a'r taliadau uniongyrchol i ffermwyr o dan Golofn 1 y PAC. Rydym yn galw hefyd am ddisodli fformiwla Barnett â system newydd seiliedig ar reolau sy'n sicrhau bod adnoddau'n cael eu dyrannu ar sail angen cymharol yn y DU yn y dyfodol. Rwy'n gweithio'n agos gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Materion Gwledig, ac mae ei dystiolaeth i'r Pwyllgor hwn wedi rhoi rhagor o fanylion ar ddisodli cyllid gwledig ac amaethyddol yr UE.

7. Mae datblygu economaidd ac amaethyddiaeth yn feysydd sydd wedi'u datganoli i Gymru, ac rydym wedi cael sicrwydd y byddant yn cael eu parchu a'u cryfhau yn sgil Brexit. Mae Llywodraeth y DU wedi dweud droeon hefyd y bydd unrhyw benderfyniadau a wneir yng Nghymru ar hyn o bryd yn parhau yng Nghymru ac rydym wedi bod yn rheoli'r cyllid hwn am 20 mlynedd yn dilyn setliad ariannol ar gyfer y DU gyfan. Yn ogsytal, ychydig iawn o bwerau sydd gan Lywodraeth y DU i ariannu a chyflawni datblygu economaidd rhanbarthol yng Nghymru, heb ddeddfwriaeth bellach.

8. Felly disgwyliwn gael rheolaeth lawn dros gyfeiriad gweinyddol a strategol cronfeydd olynol fel y gallwn lunio trefniadau penodol i Gymru. Nid efelychu cronfeydd yr UE yng Nghymru yw'r nod, na disodli biwrocratiaeth yr UE gydag un y DU. Dyna pam i ni ymgysylltu â'n partneriaid ledled Cymru i ganfod cyfleoedd i wneud pethau'n wahanol yn ogystal â dysgu o'r hyn sy'n gweithio'n ymarferol.

---

9. O un cyfnod cyllido i'r llall rydym ni wedi gorfod rheoli setliadau cyllido ansicr o ganlyniad i drafodaethau estynedig am gyllideb yr UE a newid fformiwlâu cyllido. Fel gyda phroses yr UE mae'r gwaith dadansoddi a pharatoi yn bwysig ac yn lled debyg beth bynnag fo'r setliad ariannol. Bydd ein gwaith datblygu gyda rhanddeiliaid (e.e. drwy 'gyd-gynhyrchu' ar gyfer buddsoddi rhanbarthol) yn sicrhau bod ystod o senarios cyllido'n cael eu hystyried wrth i'r gwaith hwnnw fynd rhagddo.

10. Mae'r dull gweithredu hwn wedi'i gymeradwyo mewn nifer o ymchwiliadau gwahanol a gynhaliwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynulliad). Roedd adroddiad y Pwyllgor Materion Ewropaidd a Deddfwriaeth Ychwanegol ar ei Ymchwiliad i ddyfodol polisi rhanbarthol ym mis Mehefin 2017 yn galw am gyllid seiliedig ar anghenion amgen ar gyfer Cymru ar yr un lefel ag y byddem yn ei disgwyl pe baem yn rhan o'r UE ac roedd yn galw ar Lywodraeth Cymru i fynd ati'n awr i ddatblygu polisi cyllido rhanbarthol.

***Rhaglen Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd***

11. Mae Cymru'n cymryd rhan mewn nifer o raglenni Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd hefyd, yn cynnwys y rhaglenni Cymru-Iwerddon y mae Llywodraeth Cymru'n eu gweinyddu ar hyn o bryd. Rydym wedi datgan yn glir ein bod ni'n cydnabod gwerth ychwanegol sylweddol yn y rhaglenni hyn, sy'n cynnig manteision lu o ran cydweithredu rhyngwladol, rhannu arfer gorau, a chyfleu Cymru agored a chydweithredol i'r byd. Mae Llywodraeth y DU wedi gadael y drws ar agor drwy sicrhau ein bod yn parhau i allu cael mynediad at y rhaglenni hyn, ond bydd angen i ni barhau i eiroli dros y gwerth a roddir ganddynt.

12. Rydym wedi cael cefnogaeth gref dros barhau i gymryd rhan yn y rhaglenni Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd gan randdeiliaid yng Nghymru mewn ymateb i'n hymarfer ymgysylltu ar y papur polisi *Buddsoddiad Rhanbarthol yng Nghymru ar ôl Brexit*. Rydym yn parhau i rannu'r canfyddiadau hyn, a'r negeseuon clir tebyg o ymchwiliadau amrywiol bwyllgorau'r Cynulliad, gyda Llywodraeth y DU i helpu i lunio'r achos o blaid cyfranogiad parhaus yn y rhaglenni hyn.

13. Cyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd reoliadau drafft ar gyfer rhaglenni Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd y dyfodol ar 29 Mai, ac rydym yn eu hadolygu'n fanwl i sicrhau bod cynigion yn parhau i fod yn addas i Gymru a bod mynediad priodol yn bosibl o hyd ar ôl i ni adael yr UE. Hefyd, cefais gyfarfod gyda Gweinidog Iwerddon dros Gyllid a Gwariant Cyhoeddus a Diwygio, Paschal Donohoe, ym mis Chwefror. Gyda'n gilydd, rydym wedi ymrwymo i ddiogelu'r berthynas rhwng y ddwy wlad ac wedi cytuno i gadw mewn cysylltiad agos i sicrhau ein bod yn manteisio ar bob cyfle i sicrhau cydweithrediad rhwng Cymru ac Iwerddon at y dyfodol.

***Cronfeydd a reolir gan y Comisiwn Ewropeaidd***

14. Mae yna ystod o gronfeydd yr UE a reolir yn ganolog y mae Cymru wedi cael mwy a mwy o lwyddiant yn cael mynediad atynt. Aethom ati i nodi blaenoriaethau cychwynnol ar gyfer y cronfeydd hynny lle byddem yn dymuno i'r DU sicrhau

mynediad parhaus atynt yn *Diogelu Dyfodol Cymru*. Mae'n ymddangos bod Llywodraeth y DU yn cytuno y dylai parhau i gael mynediad at olynydd Horizon 2020 (sef Horizon Europe, a gyda chynydd sylweddol mewn cyllid yn yr arfaeth) fod yn flaenoriaeth a byddwn yn gweithio gyda nhw i geisio dylanwadu ar ddatblygiad trefniadau olyniaeth a thelerau mynediad Llywodraeth y DU. Er enghraifft, gwnaethom gyflwyno a chyhoeddi papur safbwynt i ymateb i ymgynghoriad yr UE ar ddyfodol Horizon 2020 ym mis Mawrth eleni.

15. Rydym ni wedi dweud hefyd fod mynediad parhaus at gronfeydd eraill fel Erasmus+ ac Ewrop Greadigol yn flaenoriaethau i Gymru o hyd a pharhau mae trafodaethau ag adrannau perthnasol y DU i adeiladu achos o blaid cyfranogiad parhaus y DU ym mhob un o'r rhain.

16. Ar 2 Mai 2018 cyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd gynnig drafft cychwynnol ar gyfer Fframwaith Ariannol Aml-flynyddol 2021-2021. Mae cynigion fesul sector ar gyfer pob un o'r cronfeydd sy'n dod o dan y fframwaith yn cael eu cyhoeddi'n awr hefyd. Rydym ni'n gweithio ar draws y Llywodraethau ar hyn o bryd i ddadansoddi'r rhain a nodi unrhyw newidiadau a allai effeithio ar ein sefyllfa yn y trafodaethau neu ddatgelu cyfleoedd newydd.

17. Yn dilyn adborth gan randdeiliaid rydym ni'n blaenoriaethu'r rhaglenni'r UE a reolir yn ganolog sy'n cynnig gwerth ychwanegol clir ar lefel yr UE, megis cynnwys cydweithredu rhyngwladol, meithrin perthnasoedd, a hyrwyddo Cymru'n fyd-eang. Mae mynediad at y rhaglenni hyn yn dibynnu ar y berthynas a negodir gan Lywodraeth y DU at y dyfodol a pharodrwydd i gyfrannu cyllid at gyllideb yr UE am gael cymryd rhan. Bydd trefniadau gweinyddol yn parhau'n debyg i drefniadau cyfredol, er y bydd sefydliadau o Gymru yn cymryd rhan ar sail wahanol (e.e. fel 'trydydd gwlad').

18. Er mai cyfranogiad parhaus yn rhaglenni'r UE yw ein dewis cyntaf ar gyfer y cronfeydd hynny lle mae'r gwerth mwyaf yn cael ei ychwanegu ar lefel yr UE, rydym y barod i drafod ble gallai cynllun amgen DU gyfan fod yn addas (e.e. os na ellir sicrhau mynediad at yr UE).

***Banc Buddsoddi Ewrop (EIB)***

19. Yn ein Papur Gwyn, *Diogelu Dyfodol Cymru*, rydym wedi nodi hefyd y dylai'r DU barhau i fod yn bartner tanysgrifio i'r Banc. Mae'r Banc yn cynnig buddiannau uniongyrchol i'n heconomi yn ogystal â gwella ein capasiti economaidd mewn mannau eraill, gan felly hybu'r amgylchedd masnachu byd-eang a gefnogwn. Mae manteision ychwanegol i Gymru a'r DU o gael mynediad at arbenigedd masnachol sylweddol yn y Banc. Mae prosiect Metro De Cymru, er enghraifft, wedi elwa ar arbenigedd masnachol y Banc yn llywio'r broses gaffael, ac yn yr un modd mae buddsoddiadau blaenorol yng Nghymru wedi elwa ar arbenigedd ac arfer gorau'r Banc.

20. Yn ôl adrodd cam 1 yr UE-DU, mae yna bosibilrwydd o drefniant parhaus rhwng y DU a'r Banc. Ysgrifennais at y Canghellor ym mis Rhagfyr i bwysleisio unwaith yn rhagor ein bod ni'n gweld budd mewn cael perthynas â'r Banc sy'n elwa'r ddwy

ochr. Rwyf wedi cael sicrwydd y bydd opsiynau ar gyfer y berthynas honno'n cael sylw yn ystod cam nesaf y trafodaethau Brexit.

**Buddsoddi Rhanbarthol: gweinyddu yn y dyfodol**

21. O ran disodli Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd yng Nghymru rydym wedi nodi cynigion cychwynnol yn ein papur polisi *Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru ar ôl Brexit.* Yna cynhaliwyd nifer o weithgareddau ymgysylltu yn cynnwys digwyddiad yn y Gogledd gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Materion Gwledig a'r un y mynychais i yn y De.

22. Roedd yr egwyddorion yn y papur hwnnw'n adlewyrchu: trafodaethau gydag amrywiaeth o bartneriaid ynghylch yr hyn sy'n gweithio a ddim yn gweithio yn y trefniadau cyfredol; canfyddiadau'r Ymchwiliad Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol i ddyfodol polisi rhanbarthol; a'r trafodaethau i ni eu cynnal gyda'r OECD am arfer gorau rhyngwladol ym maes polisi rhanbarthol.

23. Nid ydym yn ceisio efelychu rhaglenni'r UE yng Nghymru ac mae'r prif gyfleoedd rydym wedi'u nodi i wneud pethau'n wahanol yn cynnwys:

- Y gallu i integreiddio trefniadau olyniaeth â buddsoddiadau a pholisïau ehangach Llywodraeth Cymru, ac yn arbennig eu llunio i gyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r trefniadau i ddatganoli cyfrifoldeb am ddatblygu economaidd i'r rhanbarthau fel y nodir yn y Cynllun Gweithredu ar yr Economi;

- Integreiddio cronfeydd lluosog a dileu cyfyngiadau daearyddol artiffisial fel nad oes rhaid i fuddsoddiadau mewn pobl, busnesau ac ardaloedd gwledig gael eu gwahanu'n artiffisial na chael eu cyfyngu'n ddaearyddol;

- Dirprwyo rhagor o weithgarwch cynllunio a phenderfyniadau priodol i ranbarthau ac ardaloedd lleol, wedi'i ategu gan feithrin gallu, a Llywodraeth Cymru a phartneriaethau rhanbarthol i fod yn gyd-gyfrifol am strategaethau;

- Symleiddio trefniadau a safoni dulliau gweithredu ar draws Llywodraeth Cymru, fel dull rheoli grantiau cyffredin yn seiliedig ar y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau;

- Datblygu dull monitro a gwerthuso mwy cadarn sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yn hytrach na mewnbynnau, sy'n cynnwys amcanion llesiant, cymdeithasol ac amgylcheddol ochr yn ochr â rhai economaidd, ac sy'n annog arloesedd.

24. Mae yna nifer o feysydd lle mae'r dulliau gweithredu cyfredol yn arbennig o werthfawr, er bod bob amser cyfleoedd i wella. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Barnwyd bod gwaith partneriaeth ac ymgysylltu yn gryfder allweddol o gymharu â pholisi domestig ac y gellid ei wella drwy ganolbwyntio ar 'gyd-gynhyrchu' mewn trefniadau olyniaeth;

- Croesawyd rhaglenni hirdymor aml-flynyddol hefyd i roi sicrwydd i fuddsoddwyr ac annog buddsoddiadau mwy cynhyrchiol;

- Ystyriwyd mynediad agored a thryloyw at gyllid gyda rheolau a phrosesau clir yn fantais er mwyn osgoi cyfleu'r syniad o 'gipio' cyllid.

25. Rydym wedi cael 41 ymateb i'n cwestiynu ymgysylltu manwl, 83 ymateb arall i arolwg ar-lein, ac mae swyddogion wedi cynnal dau ddigwyddiad gyda rhanddeiliaid ac wedi cymryd rhan mewn 14 cyfarfod a digwyddiad a gynhaliwyd gan randdeiliaid allweddol yn cynnwys CGGC, CLlLC a CBI Cymru.

26. Rydym wedi comisiynu dadansoddiad annibynnol o'r ymatebion hynny i sicrhau nad oes rhagfarn ddiarwybod yn ein dehongliad. Byddwn yn cyhoeddi'r adroddiad hwn cyn toriad yr haf ac yn ystyried y canfyddiadau gyda'n partneriaid dros yr haf.

**Mark Drakeford AC**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid**
**Mehefin 2018**